# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 5ED HYDREF, 2017**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

**sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 27 Medi 2017)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

**www.gwynedd.llyw.cymru**


**DYDD MERCHER, 27 MEDI 2017**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 5 HYDREF 2017**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 5ED HYDREF, 2017 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i’r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Annibynnol Gwynedd – Ystafell Daron
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Llafur Rhyddfrydol - Ystafell Llyfni

# RHAGLEN


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 5 - 22

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2017 a 28 Gorffennaf 2017 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** 23 - 35

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

**9. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU** 36

Penodi Aelodau Etholedig i’r Pwyllgor Safonau

**10. Y DREFN O GANFOD ARBEDION I'R DYFODOL**

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

**11. YMATEB I YMGHYNGHORIAD DIWYGIO ETHOLIADOL YM MAES LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU** 37 - 44

Cyflwyno Adroddiad y Dirprwy Arweinydd

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARCHWILIWR DOSBARTH** 45 - 67

Cyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL STRATEGOL DIOGELU** 68 - 78

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc

**14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 79 - 81

Derbyn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

**15. CYFLEUSTERAU HAMDDEN - SEFYDLU CWMNI WEDI EI REOLI GAN Y CYNGOR** 82 - 98

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant

Mae'r atodiadau ar wahan ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn unig.

Mae'r eitemau yn eithredig o dan Paragraffau 14 ac 16 o Atodiad 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (gwybodaeth yn ymwuneud a materion ariannol, busnes a chyfreithiol).

Mae'r adroddiad blaen yn agored ond mae'r atodiadau yn cynnwys gwybodaeth masnachol a chyfreithiol sensitif. Hynny oherwydd y byddai rhyddhau yr atodiadau yn llawn yn caniatáu i gyflenwyr annibynnol o'r Cyngor ddod i gasgliadau ynglŷn â pherfformiad ariannol ynghyd â ffioedd rheoli y gwahanol fodelau darparu. Yn sgil hynny, gall rhyddhau danseilio unrhyw drefniadau caffael i'r dyfodol fyddai'n gadael y Cyngor yn agored i risg ariannol o safbwynt rheoliadau caffael. Mae hefyd yn cynnwys cyngor cyfreithiol fyddai yn ddarostyngedig i fraint cyfreithiol.

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

# Y CYNGOR, 15.06.17

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Wayne Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Arwel E.Jones a Janet Roberts (Uwch Reolwyr Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Sian Wyn Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed P. Roberts, Gareth A.Roberts, Mike Stevens, Hefin Underwood a Cemlyn Williams.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2017 fel rhai cywir.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Gan gyfeirio at eitem 9 ar y rhaglen – Adolygiad o Ffiniau Etholaethol Gwynedd, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd o’r farn bod yr adroddiad yn cynrychioli buddiant oherwydd ei fod yn ymgynghoriad ar fater na fydd yn dod i rym am bum mlynedd a bod unrhyw effaith yn ddarostyngedig i nifer o ffactorau eraill fod yn weithredol.

Datganodd y Cynghorydd Peter Read fuddiant personol yn eitem 19(A) ar y rhaglen – rhybudd o gynnig ganddo ynglŷn â dosbarthu cadeiriau olwyn yng Ngogledd Cymru oherwydd ei fod yn ddefnyddiwr y gwasanaeth.

Nid oedd yr aelod o’r farn ei fod yn fuddiant sy’n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 19(C) ar y rhaglen – rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Glyn Daniels ynglŷn ag ysbyty newydd Blaenau Ffestiniog, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Linda Ann Jones oherwydd ei bod yn aelod o Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Blaenau Ffestiniog, yn cynrychioli pobl ag anableddau dysgu yn ardal y Blaenau.
- Y Cynghorydd Glyn Daniels oherwydd ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Amddiffyn.
- Y Cynghorydd Gareth Thomas oherwydd bod ei gwmni wedi cyflawni gwaith i'r Bwrdd Iechyd ar gychwyn y broses ymgynghori.
- Y Cynghorydd Elin Walker Jones oherwydd ei bod yn gyflogedig gyda'r Gwasanaeth Iechyd.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(1) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar golli ei Dad yn ddiweddar. Nodwyd y bu Mr E.H.Griffiths yn aelod gweithgar iawn o Gynghorau Gwynedd a Dwyfor yn ei ddydd a thalwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Owain Williams.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Irfon Williams o Fangor, ymgyrchydd canser a sylfaenydd ymgyrch Hawl i Fyw.

Nodwyd bod y Cyngor hefyd yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar.

(3) Nodyn

Nodwyd y gadawyd Pecynnau Cyflwyno'r Gwasanaeth Llyfrgell ym mlychau post yr aelodau a gofynnwyd i bawb eu casglu cyn gadael ar y diwedd.

Eglurwyd, er nad oes gan bob aelod o'r Cyngor lyfrgell yn ei ward, bod y gwasanaeth yn paratoi cynnig digidol ar lein, sydd ar gael i drigolion Gwynedd sydd â mynediad at y We. Nodwyd hefyd bod llyfrgell deithiol y gwasanaeth yn ymweld â nifer fawr o wardiau gwledig a bod y Gwasanaeth Cartref ar gael i'r rhai hynny sy'n gaeth i'w tai.

**4. MATER BRYS – AELODAETH Y PANEL HEDDLU A THROSEDD**

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd bod sedd ar y Panel wedi dod yn wag a bod angen penodi aelod o'r panel cyn gynted â phosib'.

Nododd y Cadeirydd:-

- Fel yr adroddwyd i gyfarfod diwethaf y Cyngor llawn, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adnabod un aelod o Grŵp Plaid Cymru ac un aelod o'r Grŵp Annibynnol i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Heddlu a Throsedd.
- Ymhellach i enwebu'r Cynghorydd Dilwyn Morgan yn aelod o'r panel, y bu iddo ymddiswyddo o'r penodiad yn sgil pwysau gwaith, ac felly 'roedd sedd Grŵp Plaid Cymru ar y panel wedi dod yn wag.

**PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorydd Peter Read (Plaid Cymru) yn aelod o'r Panel Heddlu a Throsedd am y cyfnod hyd yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.**

**5. CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aeron Jones**

"Beth mae'r Cyngor am wneud am y carafanau a'r faniau sy'n parcio tros nos ar draethau Dinas Dinlle, ar lecyn y Foryd, ble mae arwyddion gan y Cyngor hwn, 'Dim Parcio Tros Nos' i fyny, ond yn cael eu hanwybyddu gan yr ymwelwyr?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, y Cynghorydd Ioan Thomas (ac hefyd ar ran yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig)**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r cwestiwn i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Nid ydym yn annog ymwelwyr i ddefnyddio'r llecynnau yma ar gyfer parcio dros nos. Yn ymarferol mae'n anodd i'r Cyngor orfodi drwy symud cerbydau yn syth, oherwydd yr amser mae'n gymryd i gyflwyno rhybuddion ffurfiol, ac yna chyflwyno cais am orchymyn meddiant yn y llys sirol lleol."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Aeron Jones**

"Faint o sicrwydd all yr Aelod Cabinet roi bod perchnogion y faniau yma ddim yn arllwys eu toiledau cemegol a gwastraff dŵr yn y llecynnau hyn a'u bod yn cael eu cosbi yn y dyfodol am barcio dros nos?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Mi wnaf gyd-drafod gyda'r Aelod Cabinet Amgylchedd a'r swyddogion perthnasol a rhoi ateb llawn i chi maes o law, ond 'rwy'n deall eich pryder."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Sut mae'r Arweinydd am sicrhau cydraddoldeb a chyfleoedd i weithio i Gyngor Gwynedd, yn enwedig i ferched?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Arweinydd i'r cwestiwn i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae pawb, yn amlwg, yn gytûn yma ein bod am hyrwyddo cydraddoldeb ar draws unrhyw ryw neu ffiniau neu hiliaeth, ayb, ac mae ein polisïau yn adlewyrchu hynny. Mae'r Cyngor wrthi'n gwneud gwaith i geisio adnabod cyfleon i hyrwyddo rôl merched oddi fewn y Cyngor ac felly 'rydym yn ymwybodol iawn o fod angen gwella pethau, fel yr ydym mewn sawl maes. Mae'r Dirprwy Arweinydd, sy'n gyfrifol am gydraddoldeb ac adnoddau dynol, yn mynd i ymwneud â'r gwaith yma ac yn mynd i adrodd ar gynnydd a'r datblygiadau yn yr holiaduron, ac yn y blaen, 'rydym wedi ddatblygu'n ddiweddar. Mae hithau wedi tynnu fy sylw at gomisiwn llywodraeth leol traws bleidiol sy'n edrych ar rôl merched ym myd llywodraeth leol a bydd hi'n awyddus iawn i gyfrannu at y drafodaeth honno ac i ddysgu oddi wrth unrhyw argymhellion fydd ganddynt."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Allan o'r 10 Aelod Cabinet, faint sy'n ddynion a faint sy'n ferched?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Mae yna 1 ferch, sef y Dirprwy Arweinydd, a 9 o ddynion. 'Rydw i'n falch iawn o record fy mhlaid lle mae merched yn y cwestiwn. Mae gen i Ddirprwy Arweinydd yn ferch, mae gennym ni Gadeirydd y Cyngor yn ferch; mae gennym ni Is-gadeirydd y Cyngor yn ferch. Mae gennym ni Aelod Cynulliad Arfon yn ferch. Mae gennym Aelod Seneddol yn Nwyfor / Meirionnydd sy'n ferch, ac nid yn unig hynny, ond yn wir yn Arweinydd y Blaid yn San Steffan. Mae Arweinydd ein plaid yn ferch. Lle mae record y Blaid Lafur i gymharu â record wych Plaid Cymru yn y maes yma? 'Rwy'n synnu ei fod yn gofyn y cwestiwn, ond mae yna agwedd ddifrifol i hyn. Nid yw bod yn Aelod Cabinet yn rhwydd i bawb. Mae'n gofyn ymrwymiad bron yn llawn-amser ac mae hynny, wrth gwrs, yn cyfyngu ar allu pobl i ymrwymo i'r gwaith, ac yn arbennig merched. 'Rydw i'n ymwybodol iawn o brofiad yn y tymor diwethaf o gydweithio gyda Mandy Williams-Davies, oedd yn fam brysur ac yn gweithio yn hynod o galed fel Aelod Cabinet ac yn ceisio cynnal teulu ar yr un pryd. 'Rwy'n credu bod gennym le i wella, ac rydw i'n edrych ymlaen i weld beth fydd casgliadau'r comisiwn rhyng-bleidiol oherwydd 'rydw i'n credu bod angen i ni roi mwy o gefnogaeth i deuluoedd ifanc, i ferched ifanc, ac yn wir i dalu'n iawn i bobl am wneud gwaith ar y Cabinet, sydd hefyd yn rhwystr i bobl ymrwymo i waith y Cabinet. Felly, 'rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at gydweithio hefo'r Cynghorydd Sion Jones i ddatblygu rôl merched yn y Cyngor. Wrth gwrs, nid oes ganddo ef ferch yn ei grŵp hyd yn oed, felly mae hynny'n broblem iddo yn y lle cyntaf. 'Rydym yn gytûn bod angen i ni hyrwyddo rôl merched ac 'rwy'n ymrwymo i wneud fy ngorau i wneud hynny. Un cam y byddaf yn ei gymryd fydd gofyn i ferched gysgodi peth o waith y Cabinet fel ein bod yn gallu cynnig lle iddynt yn y dyfodol."

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD GWYNEDD 2016/17

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2016/17, a'i fabwysiadu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion hynny fu ynghlwm â'r gwaith.

Ymatebodd yr Arweinydd a'r swyddogion perthnasol i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Y canran o wariant caffael y Cyngor sydd yn mynd i gwmnïau sydd â'u pencadlys yng Ngwynedd.
- Ffurf a gweithrediad Panel Trigolion Gwynedd a'r grwpiau ffocws.
- Yr amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Eglurwyd bod hwn yn ddangosydd sy'n gallu bod yn anodd ei reoli gan fod y gwaith yn dueddol o fod yn waith sylweddol sy'n cymryd amser i'w gynllunio, a bod oedi yn gallu digwydd hefyd. Cytunodd yr Arweinydd i graffu'r sefyllfa os nad yw'r perfformiad cystal ag y bu.
- Pryder bod pwysau gwaith yn arwain at gynnydd mewn absenoldebau salwch staff. Nodwyd, er bod y Cyngor hwn yn parhau yn y chwartel uchaf, bod hyn yn rhywbeth i gadw golwg arno ac awgrymwyd bod lle i bwyllgor craffu edrych ar hyn hefyd.
- Y cynnydd sylweddol yn y buddsoddiad i'r sir drwy law prosiectau a phryder na fydd modd cynnal y lefel yma o fuddsoddiad i'r dyfodol o ganlyniad i golli arian Ewrop.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2016/17, a'i fabwysiadu.**

## 7. ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHOL GWYNEDD

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cynghorydd R.Medwyn Hughes, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Ffiniau ar eu hadolygiad o ffiniau etholaethol Cyngor Gwynedd.

Cyfeiriodd hefyd at gynnwys papur ychwanegol a ddosbarthwyd i'r aelodau oedd yn diweddaru'r Cyngor ar gynigion ar gyfer ardal Dinas Bangor a chynigion ar gyfer ardal Pen Llþn yn dilyn trafodaethau lleol.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod mwy o ystyriaeth yn cael ei roi i Ardal Pen Llþn ac Ardal Bangor oherwydd yr amgylchiadau unigryw yn yr ardaloedd hynny, sef nifer y trethdalwyr sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd ym Mhen Llþn, llawer sy'n talu'r dreth lawn a mwy, wardiau Bangor, sydd gyda niferoedd uchel o fyfyrwyr, ac eto ddim yn dod i ystyriaeth yn y papur hwn, a ward Marchog, sy'n ardal Cymunedau'n Gyntaf, ac felly'n unigryw eto.

Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd yr amserlen yn caniatáu rhoi mwy o ystyriaeth i gynigion penodol gan fod rhaid i ymateb y Cyngor gyrraedd y Comisiwn Ffiniau erbyn y bore canlynol.

Mewn ymateb i sylw nad oedd y cynghorau cymuned wedi rhoi llawer o ymateb i'r adolygiad, eglurodd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol fod hyn ynghlwm â'r anhawster gyda'r amserlen, oedd yn pontio'r cyfnod etholiad i'r cynghorau hynny, fel y Cyngor hwn. Nododd fod pob cyngor cymuned wedi derbyn llythyr gan y Comisiwn a bod y Cyngor hwn wedi cysylltu'n benodol â chynghorau cymuned yn yr ardaloedd oedd yn cael eu heffeithio gan y cynigion.

Mewn ymateb i'r gwelliant, nododd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol y gallai gynnwys y pwyntiau ynglþn â sefyllfa unigryw ardaloedd Pen Llþn a Bangor yn y llythyr at y Comisiwn.

Nodwyd bod y Grŵp Annibynnol wedi cyflwyno rhai sylwadau ychwanegol i'w cymhorthydd yn eu cyfarfod grŵp y bore hwnnw a chytunwyd bod yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yn cysylltu â'r swyddog i gael y sylwadau hynny.

Gyda chydsyniad y Cyngor, tynnodd y cynigydd ei welliant yn ôl gan fod sylwedd y gwelliant yn mynd i gael ei ymgorffori yn ymateb y Cyngor i'r adolygiad.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu na ddylid cynnig unrhyw newidiadau i'r etholaethau a ganlyn:-**

- **<u>Arfon</u> – Arllechwedd, Bethel, Deiniolen, Dewi (Bangor), Gerlan, Glyder (Bangor), Y Groeslon, Llanberis, Llanrug, Ogwen, Pentir, Penygroes, Tregarth a Mynydd Llandygai, Waunfawr, Y Felinheli.**

- **<u>Dwyfor</u> – Abererch, Criccieth, Dolbenmaen, Efail Newydd / Buan, Llanystumdwy, Nefyn, Porthmadog (Dwyrain), Porthmadog (Gorllewin), Porthmadog (Tremadog), Pwllheli (De), Pwllheli (Gogledd).**

- **<u>Meirionnydd</u> – Aberdyfi, Abermaw, Brithdir a Llanfachreth / Y Ganllwyd / Llanelltyd, Bowydd a Rhiw, Corris a Mawddwy, Dolgellau (De), Dolgellau (Gogledd), Penrhyndeudraeth, Y Bala.**

**(b) Cymeradwyo'r cynigion penodol a argymhellwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (*ac a amlygir yn llawn yn yr adroddiad – paragraffau 9.1 – 9.9)* yng nghyswllt yr etholaethau a ganlyn:-**

- **Ardal Tref Caernarfon**
- **Ardal Ffestiniog**
- **Ardal Tywyn**
- **Ardal Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr**
- **Ardal Llanrug**
- **Ardal Llanllyfni, Talysarn a Nantlle**
- **Ardal Clynnog, Trefor a Llithfaen**
- **Ardal Penllyn**
- **Ardal Llanegryn, Bryncrug a'r Friog**

**(c) Cymeradwyo'r cynigion a argymhellwyd ar gyfer Ardal Llanwnda, Groeslon a Carmel yn sgil ymgynghoriad gyda'r aelodau lleol perthnasol (*ac a amlygir yn llawn yn yr adroddiad – paragraff 8.3*).**

**(ch) Cymeradwyo'r cynigion a argymhellwyd ar gyfer Ardal Bangor yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Cyngor Dinas ac aelodau lleol Bangor, sef:-**

- **Etholaethau Pentir, Dewi a Glyder i aros fel ag y maent ar hyn o bryd.**
- **Etholaeth Marchog (1,559) i aros fel ag y mae ar hyn o bryd yn cynnwys cadw dau aelod oherwydd maint y ward a hefyd natur y gymuned ddifreintiedig sydd yno sydd yn cynyddu llwyth gwaith unrhyw aelod sydd yn cynrychioli'r etholaeth.**
- **Uno etholaethau Menai a Garth (1,439) ond pwyso yma eto am ganiatáu dau aelod oherwydd y pwysau sydd yn dod yn sgil presenoldeb miloedd o fyfyrwyr yn yr ardal a'r ffaith bod y Brifysgol**

**am gyflwyno trefn newydd i geisio cael mwy o fyfyrwyr i gofrestru i bleidleisio yn lleol.**

- **Rhannu ward Deiniol o gwmpas Glanrafon a'r Gadeirlan gyda'r ochr gogledd-ddwyreiniol ohono yn ymuno ag etholaeth Hirael i greu etholaeth o oddeutu 1,200 a'r hanner de-orllewinol ohono, yn cynnwys Cae Llepa, yn ymuno ag etholaeth Hendre i greu etholaeth o tua 1,250.**

**(d) Cymeradwyo'r cynigion a luniwyd ar gyfer Ardal Abersoch, Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Morfa Nefyn a Llanbedrog yn sgil ymgynghoriad gydag aelodau lleol ardal Llŷn, sef:-**

- **Etholaeth ar gyfer cymuned Llanbedrog yn ymestyn o Benrhos i groesffordd Coed y Fron, Mynytho, sydd yn cynnwys Llanbedrog (768) a Mynytho hyd at Coed y Fron (tua 450) (Etholaeth un aelod gyda tua 1,218 o etholwyr).**
- **Etholaeth arall ar gyfer cymuned Llanengan o groesffordd Coed y Fron fydd yn cynnwys y gweddill o Langian (tua 53 o etholwyr y tu hwnt i Mynytho), Llanengan (333) ac Abersoch (523) yn cynnig etholaeth un aelod gyda tua 909 o etholwyr.**
- **Uno etholaethau Aberdaron (773) a Botwnnog (724) i greu etholaeth newydd o 1,457 o etholwyr (dau Gyngor Cymuned cyfan).**
- **Uno etholaethau Tudweiliog (660) a Morfa Nefyn ac Edern (897) i greu un etholaeth newydd o 1,557 o etholwyr (dau ardal Cyngor Cymuned cyfan).**

**(dd) Awdurdodi'r swyddogion i gyflwyno'r cynigion ynghyd â'r pwyntiau ychwanegol a wnaed yn ystod y drafodaeth i gryfhau'r achos dros y cynigion uchod.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17 Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2016/17.

Yn ei chyflwyniad, rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o sut y darparwyd y gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn a fu a'r prif flaenoriaethau ar gyfer 2017/18. Nododd bod yr adroddiad yn ymgais i wneud asesiad o ba mor effeithiol yw gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion, plant a theuluoedd yng Ngwynedd.

Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff am eu gwaith di-flino ac ymroddedig eto eleni. Diolchodd yn arbennig i Marian Parry Hughes (Pennaeth Plant a Theuluoedd), Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol), fu'n gweithio'n agos gyda hi ar y gwaith o lunio'r adroddiad blynyddol. Diolchodd hefyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau am eu gwaith a'u sylwadau adeiladol ac i'r Aelodau Cabinet yn y maes gofal, y Cynghorwyr W.Gareth Roberts a Mair Rowlands am eu cefnogaeth dros y flwyddyn. Nododd hefyd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynghorydd Dilwyn Morgan, oedd wedi cymryd drosodd y portffolio plant a phobl ifanc.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands i'r Cyfarwyddwr am bob cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, gan ddiolch hefyd i holl staff y gwasanaethau cymdeithasol, sy'n gwneud gwaith anodd iawn.

Diolchodd i'r rhieni maeth hefyd a dymunodd yn dda i'w holynydd, y Cynghorydd Dilwyn Morgan, wrth iddo gymryd drosodd y portffolio.

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd y Cyfarwyddwr i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Yr angen am greu mesuryddion penodol ar gyfer plant ag awtistiaeth.
- Pwysigrwydd ymyrraeth gynnar.
- Y cynnydd yn nifer y plant sy'n dod i ofal.
- Anhawster cael mynediad i wasanaethau Derwen.
- Y risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth ac effaith y toriadau.
- Pwysigrwydd gofal ysbaid.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am eu holl waith yn ystod y flwyddyn.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2016/17**

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Angela Russell, adroddiad blynyddol Craffu ar gyfer 2016/17. Diolchodd i'r Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r cadeiryddion craffu eraill am eu gwaith gan nodi ei bod yn bwysig bod y pwyllgorau newydd yn adeiladu ar y gwaith da a gyflawnwyd, ond yn gwneud mwy o graffu ymlaen llaw. Diolchodd hefyd i bawb fu'n aelodau o'r pwyllgorau craffu dros y 5 mlynedd ddiwethaf ac i Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr – Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) a gweddill y Tim Cefnogi Aelodau am bob cymorth.

**10. PENODI AELODAU ETHOLEDIG AC AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL O'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands, adroddiad ar y broses o benodi Aelodau Etholedig ac Aelod Pwyllgor Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau, gan wahodd y Cyngor i dderbyn argymhelliad y Grŵp Busnes i benodi'r Cynghorydd Dewi Roberts, Abersoch, fel Aelod Etholedig o'r Pwyllgor. Nododd hefyd fod dwy sedd ar ôl ar y pwyllgor ar gyfer aelodau etholedig.

Cyfeiriodd yn ogystal at gynnwys papur ychwanegol a ddosbarthwyd i'r aelodau oedd yn adrodd ar drafodaethau'r Panel o'r Pwyllgor Safonau a gyfarfu ar 12 Mehefin i gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd Aelod Pwyllgor Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau. Nododd:-

- Y cynhaliwyd y cyfweliadau gan banel o 3 Aelod Annibynnol gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- Y cyfwelwyd 7 Cynghorydd Cymuned a enwebwyd gan eu cynghorau.
- Yn dilyn ystyriaeth ofalus a thrylwyr o'r ceisiadau, y penderfynodd y Panel argymell penodi Mr Richard Parry Hughes, a enwebwyd gan Gyngor Cymuned Llannor, i'r swydd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Penodi'r Cynghorydd Dewi Roberts, Abersoch i weithredu fel Aelod Etholedig o'r Pwyllgor Safonau am oes y Cyngor.**

**(b) Penodi Mr Richard Parry Hughes fel Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod y Cyngor Cymuned.**

## 11. PENODI AELOD LLEYG I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cynghorydd R.Medwyn Hughes, adroddiad ar y broses o benodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Cyfeiriodd hefyd at gynnwys papur ychwanegol a ddosbarthwyd i'r aelodau oedd yn adrodd ar drafodaethau'r Panel a gyfarfu ar 13 Mehefin i gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd.  Nododd:-

- Y cynhaliwyd y cyfweliadau gan banel yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, wedi'u cynghori gan y Swyddog Cyllid Statudol a'r Swyddog Monitro.
- Y cyfwelwyd tri ymgeisydd am rôl yr Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus a thrylwyr o'r ceisiadau, y penderfynodd y Panel argymell penodi Mrs Sharon Warnes i'r swydd.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rôl yr aelod lleyg ar y pwyllgor, eglurodd y Swyddog Monitro bod gofyn statudol bod o leiaf un aelod lleyg ar Bwyllgor Archwilio ac mai amcan y ddeddfwriaeth oedd dod â llais annibynnol i mewn i drafodaethau'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD penodi Mrs Sharon Warnes fel Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am gyfnod o 4 blynedd.**

## 12. PORTFFOLIOS CABINET

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn datgan yn ffurfiol bod y Cyfansoddiad wedi ei addasu yn sgil penodi'r Cabinet newydd ac ail-drefnu'r Portffolios.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2016/17

Cyflwynodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt y gefnogaeth sydd wedi ei datblygu, ac wrthi'n cael ei datblygu, ar gyfer aelodau.

Diolchodd y Pennaeth i gadeiryddion y pwyllgor yn ystod cyfnod y Cyngor blaenorol, y cyn Gynghorwyr T.G.Ellis a Lesley Day a'r Cynghorydd Dewi Owen, ac hefyd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones fu'n Is-gadeirydd am dair blynedd.

## 14. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2017/18.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2017/18.**

## 15. DISGRIFIADAU O ROLAU

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu cyfres o 'ddisgrifiadau o rolau' ar gyfer y rolau a nodir isod:-

- Aelod o'r Cabinet
- Arweinydd y Cyngor a'i Ddirprwy
- Aelod o Gyngor Gwynedd (sydd yn berthnasol i bob aelod)
- Aelod o Bwyllgor Archwilio
- Cadeirydd Pwyllgor Archwilio
- Aelod o Bwyllgor Craffu
- Cadeirydd Pwyllgor Craffu
- Aelod Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Aelod Pwyllgor Safonau
- Cadeirydd Pwyllgor Safonau
- Aelod Pwyllgor Trwyddedu
- Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu
- Aelod Pwyllgor Cynllunio
- Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio
- Cadeirydd y Cyngor
- Arweinydd Gwrthblaid a'i Ddirprwy

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r 'disgrifiadau o rolau' ar gyfer y rolau a restrir uchod.**

## 16. CADEIRYDDIAETHAU CRAFFU YN SEILIEDIG AR GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, adroddiad ar yr angen i adnabod pa grwpiau sydd i benodi Cadeirydd i ba bwyllgor craffu ac yn argymell ar lafar bod y cadeiryddiaethau yn cael eu dyrannu fel a ganlyn:-

- Pwyllgor Craffu Gofal – Cadair – Annibynnol; Is-gadair - Annibynnol
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – Cadair – Plaid Cymru; Is-gadair - Annibynnol
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi – Cadair – Annibynnol; Is-gadair – Plaid Cymru

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau uchod.**

## 17. RHYBUDDION O GYNNIG

(1) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Peter Read o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Yn fy marn i mae angen adolygu'r system o ddosbarthu cadeiriau olwyn yng Ngogledd Cymru lle cafwyd nifer o achosion lle nad yw'r cadeiriau hyn yn addas i'r unigolion. Er nad cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r maes gwaith yma, mae gennym gyfrifoldeb i wrando ar bryderon dinasyddion bregus y Sir.**

**Cynnig**

**Bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu."**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.**

(2) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Bod y Cyngor yn annog ysgolion y Sir i arddangos ein baner genedlaethol – sef y Ddraig Goch ar dir neu adeiladau'r ysgol. Mae'r arferiad hwn eisoes yn cael ei wireddu gan amryw o'n hysgolion – ond nid y cyfan o bell ffordd."**

Eglurodd y Swyddog Monitro fod geiriad y cynnig ychydig yn wahanol i'r rhybudd ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr aelod, oedd yn darllen fel a ganlyn:-

**"Bod y Cyngor yn <u>gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried</u> annog ysgolion y Sir i arddangos ein baner genedlaethol – sef y Ddraig Goch ar dir neu adeiladau'r ysgol. Mae'r arferiad hwn eisoes yn cael ei wireddu gan amryw o'n hysgolion – ond nid y cyfan o bell ffordd."**

Cydsyniodd y Cyngor i'r cynigydd addasu geiriad ei gynnig gwreiddiol drwy hepgor y geiriau "*gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried*".

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan sawl aelod, ond pwysleisiwyd hefyd mai'r gwaith sy'n digwydd ar lawr y dosbarth sy'n cyfrannu fwyaf at hyrwyddo'r ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig diwygiedig.**

(3) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Glyn Daniels o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"'Rwyf yn cynnig bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi Pwyllgor Amddiffyn Ysbyty a thrigolion Blaenau Ffestiniog i bwyso ar Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac awdurdodau perthnasol er sicrhau bod cyfleusterau priodol ac angenrheidiol yn yr ysbyty newydd sy'n cael ei godi yn y dref.**

**I'r perwyl hyn, golygaf fod cyfleusterau sy'n arferol i'w canfod mewn ysbytai lleol, megis uned pelydr x, mân ddamweiniau a nifer ddigonol o welyau i gleifion preswyl. O ystyried fod Blaenau Ffestiniog y drydedd dref fwyaf yng Ngwynedd, ac hefyd fod ymateb y mwyafrif llethol o'r trigolion mewn refferendwm diweddar yn mynnu fod y dref yn haeddu gwell triniaeth, credaf nad oes unrhyw reswm i'r Cyngor beidio cefnogi'r cynnig hwn."**

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at achos llys y llynedd aeth i wrandawiad Adolygiad Barnwrol ar gefn rhybudd o gynnig fu gerbron y Cyngor gan nodi fod penderfyniadau ar rybuddion o gynnig yn benderfyniadau o sylwedd, ac nad ydynt yn wahanol i unrhyw benderfyniadau eraill a gymerir gan y Cyngor o ran statws ac arwyddocâd. Eglurodd fod rhaid i'r Cyngor wneud ei benderfyniadau ar sail tystiolaeth sy'n seiliedig ar ffeithiau, ond nad oedd o'r farn bod y dystiolaeth sy'n angenrheidiol i'r Cyngor ddod i gasgliad ar natur y ddarpariaeth iechyd ym Mlaenau Ffestiniog wedi ei chyflwyno yn yr achos hwn.

Yn wyneb yr arweiniad uchod, awgrymwyd y dylid cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Craffu Gofal, gan wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Amddiffyn i ddod i'r pwyllgor i gyflwyno tystiolaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y mater yn cael ei gyfeirio'n syth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i drafod cyn gynted ag y bo'r modd.

Mynegwyd cefnogaeth i'r gwelliant gan sawl aelod, er i bryder gael ei ddatgan hefyd ynglŷn â llwyth gwaith y Pwyllgor Craffu Gofal.

Nodwyd nad oedd amser o blaid y Cyngor, os am roi pwysau ar y Bwrdd Iechyd, a mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, ei barodrwydd i alw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor i roi sylw i'r mater hwn ar fyrder.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater yn syth i'r Pwyllgor Craffu Gofal a'i drafod cyn gynted ag y bo'r modd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.25pm.

______________________________

**CADEIRYDD**

# Y CYNGOR, 28.07.17

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Cai Larsen, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, W.Roy Owen, Jason Wayne Parry, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P. Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd:-** Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd) a Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn)

**1. YMDDIHEURIADAU:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Keith Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Morgan, Nigel Pickavance, Peter Read, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts a Catrin Wager.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD (yr Is Gadeirydd yn cyflwyno)**

(1) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Glyn Daniels a'r Cynghorydd Annwen Daniels ar golli tad a thad yng nghyfraith yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Llongyfarchiadau

I bawb o'r Sir a fu'n llwyddiannus yn y Sioe Frenhinol yn ystod yr wythnos hon.

I Arfon Pugh o Harlech ar gwblhau'r her o gneifio 900 mewn 24 awr. Fe gafodd 1,030 eu cneifio o fewn yr amser a chodwyd swm sylweddol tuag at elusen Tenovus sydd ar hyn o bryd yn sefyll o gwmpas £15,000

I Sian Ellis Williams, Swyddog Dinesig a Chefnogi Aelodau ar dderbyn aelodaeth o'r Urdd Fictorianaidd (MVO0 yn rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn ddiweddar.

**4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU NEU FUSNES ARALL**

Dim i'w nodi

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fel y diwygiwyd gan newidiadau rhwymol yr Arolygydd.

Rhoddwyd eglurhad ar drefn yr adroddiad a thynnwyd sylw at gamgymeriad i fap Llanrug oedd yn y fersiwn papur. Amlygodd bod yr adroddiad yn un manwl a chadarnhaodd ei fod yn bodloni a chydymffurfrio gyda gofynion deddfwriaethol ( Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, Polisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (2015)).

Byddai mabwysiadu'r Cynllun yn gosod polisïau manwl i reoli datblygiadau hyd at 2026; yn hwyluso darpariaeth datblygu newydd sydd ei angen i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol; yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei strategaethau tai a datblygiadau economaidd. Byddai gwrthod yn gadael yr Awdurdod heb gynllun na pholisïau digonol i warchod tiroedd y Sir ac yn rhoi cyfleoedd i Ddatblygwyr apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod ar sail nad oedd Cynllun / Polisïau yn eu lle.

Amlygwyd, ar sail tystiolaeth leol, bod polisïau tai y Cynllun yn cynllunio ar gyfer 3712 i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng (2011-2026). Gyda'r Cynllun eisoes yn ei chweched flwyddyn, cadarnhawyd bod y ffigwr yma yn cynnwys cartrefi sydd eisoes wedi eu hadeiladu neu wedi derbyn caniatâd cynllunio. Y ffigwr gweddilliol ar gyfer gweddill oes y Cynllun fydd 1366 sydd yn gyfartaledd o 137 o gartrefi newydd y flwyddyn.

Wrth gymharu'r hen strategaeth gyda'r Cynllun newydd adroddwyd bod yr hen strategaeth yn dueddol o ganolbwyntio ar sefydliadau mawr o fewn ein trefi, ond bellach bod y cynllun yma yn canolbwyntio ar ddynodiadau llai.Tynnwyd sylw hefyd at y polisïau arloesol oedd wedi eu cynnwys yn y Cynllun.

Cynigiwyd ac eiliwyd, bod y Cyngor yn:

**i.** mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 i 2026 fel y diwygiwyd gan newidiadau a argymhellwyd gan yr Arolygydd yn yr adroddiad ar yr Archwiliad (dyddiedig 30 Mehefin 2017)
**ii.** cyhoeddi'r Cynllun a fabwysiadwyd, y Datganiad Mabwysiadu, Adroddiad AG/AAS terfynol a'r adroddiad ARhC.

**iii.** yn rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion i gywiro unrhyw wallau teipio a gramadegol, i ymdrin ag unrhyw fân faterion cywirdeb neu gamgymeriadau, yn ogystal ag ymgymryd ag unrhyw faterion cyflwyno eraill angenrheidiol a newidiadau canlyniadol (sydd eu hangen yn dilyn y newidiadau argymhellir yn unol â pharagraff 1.10 yn adroddiad yr Arolygydd), cyn cyhoeddiad terfynol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.

**iv.** Bod y Canllawiau Cynllunio Atodol a gafodd eu mabwysiadu i gefnogi'r cynlluniau datblygu presennol, yn parhau i fod yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, lle mae'n briodol, nes eu bod yn cael eu disodli gan rai newydd neu'n cael eu tynnu'n ôl.

Mewn ymateb i bryderon a leisiwyd iddo nad oedd y canllawiau atodol newydd y bwriedir eu sefydlu yn cael eu hadlewyrchu yn ddigonol yn y cynnig, cynigodd yr Aelod Cabinet ychwanegu cymal v i'r argymhelliad i gyfarch hyn, sef

**v.** Bod y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi eu hadnabod yn Atodiad 9 o'r Cynllun yn cael eu paratoi gan roi blaenoriaeth i:

- CCA Cynnal a Chreu Cytundebau Unigryw a Chynaliadwy
- CCA Tai Fforddiadwy
- CCA Tai Marchnad Lleol
- CCA Math a Chymysgedd Tai
- CCA Ymrwymiad Cynllun,

yn unol ag amserlen fframwaith monitro'r Cynllun

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol dros wrthod yr argymhelliad:-

- Nad oedd y Cynllun yn gwneud digon i arbed y Gymraeg - bod risg o golli iaith. Y Cynllun heb fesur yn wyddonol yr effaith ar yr iaith Gymraeg a dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno i fonitro effaith ar yr iaith
- Nad oedd unrhyw addasiad wedi ei wneud i'r ffigyrau tai a gytunwyd yn dilyn cyhoeddi cyfrifiad 2011 oedd wedi dangos gostyngiad o 4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Bod cais am wybodaeth parthed effaith datblygiadau ar yr iaith ers 2011 heb ddod i law a heb y wybodaeth yma, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i dderbyn y Cynllun.
- Bod 1700 o sylwadau wedi eu cynnig yn ystod ymgynghoriad 2015 - llawer o'r sylwadau yn wrthwynebiadau, ond nifer wedi eu diystyru gan fod y Cyngor yn honni nad oedd tystiolaeth rymus i'w cefnogi.
- Bod peryglon mabwysiadu yn uwch na'r angen.
- Bod manylion a thystiolaeth adroddiad annibynnol o effaith andwyol y Cynllun ar yr iaith heb ei ystyried.
- Bod angen gwrthod a cheisio cyfle i addasu'r Cynllun yn briodol a chyflwyno cynllun mentrus a blaengar fyddai yn addas i'n cymunedau Cymraeg
- Bod hunaniaeth y SIr yn y fantol pe byddem yn derbyn cynllun amhriodol, di ddychymyg a difäol?
- Nad oedd digon o ystyriaeth i gadw nifer y tai i lawr a sicrhau digon o dai fforddiadwy
- Nad oedd y cynllun wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i degwch cymdeithasol
- Nad oedd yr ymateb yn ddigon egnïol i drigolion Gwynedd
- Bod gormod o dai marchnad agored
- Bod cefn gwlad yn cael ei amddifadu o dai
- Nad oedd digon o ymgynghori wedi ei wneud gyda'r cyhoedd

- Nad oedd aelodau newydd wedi cael cyfle i ystyried a deall y wybodaeth yn llawn
- Bod bygythiadau gan Lywodraeth Cymru yn arwain at wneud penderfyniadau gwael. Y Cyngor yn cael ei hun mewn sefyllfa o gael ei orfodi i wneud penderfyniad anodd. Petai'r Cyngor yn gwrthod, byddai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r Cynllun ar ein rhan. Nid oedd hyn yn ddigon da
- Bod y Cynllun yn gwireddu gorchmynion Llywodraeth Cymru ac yn tanseilio democratiaeth leol

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y sylwadau canlynol o blaid yr argymhelliad:-

- Bod y Cynllun yn ymateb i'r galw am dai newydd ar gyfer pobl leol yng Ngwynedd. Llawer o stoc tai'r Sir mewn cyflwr gwael. Cyfle yma i gynnal trafodaethau arloesol a blaengar gyda chymdeithasau tai ar gyfeiriad y cynllun. Yr uchelgais yw gwella safon byw trigolion Gwynedd gyda thai o safon uchel.
- Bod y Cynllun yn unigryw - yn cynnwys polisïau cadarn a blaengar o blaid ein cymunedau
- Y dylid mabwysiadu'r cynllun yn llawn oherwydd heb gynllun datblygu ni fydd rheolaeth dros safleoedd tu allan i'r ffiniau datblygu fyddai yn arwain at effeithiau negyddol cymdeithasol ac ieithyddol Byddai gwrthod yn gwneud mwy o ddrwg i'r iaith
- Derbyn nad yw'n gynllun perffaith ond dogfen fyw yw'r adroddiad gyda chyfle i addasu yn flynyddol, yn unol â'r angen, drwy gynnal trafodaethau, adolygu a monitro rheolaidd. O ganlyniad, er enghraifft, bydd modd cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy petai angen hynny.
- Bod modd cynllunio canllawiau atodol unigryw i Wynedd fydd yn amddiffyn ein cymunedau ac nid eu difa.
- Bod y Cynllun yn mynd i'r afael â heriau sylweddol - codi tai i fodloni anghenion lleol, cryfhau cymunedau gwledig a threfol, gwarchod yr amgylchedd a chreu cyfleoedd economaidd
- Bod cenhadu dros ddefnydd y Gymraeg ar draws holl Awdurdodau Cymru yn parhau yn flaengar. Dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar swyddi da yn lleol, polisi iaith ein hysgolion a statws iaith mewn cymunedau.
- Os na fuasai Cynghorwyr Gwynedd yn derbyn y cyfrifoldeb, byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei daflu i Gaerdydd at Weinidog nad yw'r un mor gydymdeimladwy.

Mewn ymateb i gwestiwn beth fyddai goblygiadau peidio mabwysiadu'r cynllun a beth fyddai'r camau nesaf o ystyried amserlen a chostau, nododd y Swyddog Monitro bod dyletswydd ar y Cyngor i baratoi cynllun a tynnwyd sylw at y risgiau o beidio mabwysiadu'r cynllun oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd mai anodd fuasai rheoli datblygiadau i'r dyfodol ac atal datblygiadau fyddai yn cael effaith ar ein cymunedau heb gynllun.

Yn ystod y drafodaeth gwnaed cynigion i ohirio'r penderfyniad ar sail:

- cael mwy o amser i gwblhau asesiad iaith annibynnol a derbyn mwy o wybodaeth arbenigol ym maes cynllunio.
- er mwyn gwahodd y Gweinidog i gynnal ymchwiliad cyhoeddus gan na allent gytuno ar y ffordd ymlaen a gofyn am gyngor ysgrifenedig o fewn maes cyfraith cynllunio arbenigol ar faterion cyfreithlondeb y Cynllun.
- i Lywodraeth Cymru ohirio'r penderfyniad er mwyn rhannu gwybodaeth gydag Aelodau newydd a gwneud gwaith pellach ar y canllawiau atodol, yn enwedig y canllaw iaith

- sefyll i fyny a gofyn i Lywodraeth Cymru am amser ychwnaegol i wella cynnwys y cynllun.

Mewn ymateb i'r cynigion, nododd y Swyddog Monitro:

- Nad oedd llyffethair cyfreithiol i fabsywiadu'r cynllun yn y cyfarfod.
- Bod dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddod i benderfyniad ar fabwysiadu'r y Cynllun o fewn 8 wythnos i ddyddiad derbyn adroddiad yr Arolygydd (Mehefin 30ain 2017) onibai fod caniatâd y llywodraeth wedi ei roi i ymestyn y cyfnod. Nid oedd y fath ganiatâd wedi ei dderbyn Ni fuasai gohirio am gyfnod amhenodol a thu hwnt i'r wyth wythnos yn cyd-fynd a'r dyletswydd statudol yma.
- Gan nodi statws clymol adroddiad yr Arolygydd, y byddai'r Llywodraeth yn blaenoriaethu mabwysiadu a'u hymateb i sefyllfaedd cyffelyb mewn cynghorau eraill ni fyddai cais o'r fath yn debygol o gael derbyniad ffafriol.

Mewn ymateb i gwestiwn, pam na ellid gweithredu o dan Gyfansoddiad y Cyngor ac eilio cynnig i ohirio'r penderfyniad, amlygodd y Swyddog Monitro bod y Cyfansoddiad yn ddarostyngedig i'r gyfraith ac na ellir derbyn cynnig fyddai yn arwain at benderfyniad croes i'r gyfraith

Mewn ymateb i gwestiwn, onid ydyw barn gyfreithiol annibynnol a'r gyfreithlondeb y Cynllun yn werth ystyriaeth pawb yn y Cyngor, a bod hawl i weithredu hyn ar sail methiant i gytuno, nododd y Swyddog Monitro, fel cynghorai'r Cyngor, nad oedd yn gwyro oddi ar y cyngor yr oedd wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar yr argymhelliad a phleidleisiodd mwy na chwarter yr aelodau oedd yn bresennol o blaid hynny.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar yr argymhelliad:-

**O blaid (30)**
Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Steve Collings, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Simon Glyn, Gareth Griffith, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones Huw Wyn Jones, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Owen, Rheinallt Puw, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Yn erbyn (30)**
Y Cynghorwyr, Menna Baines, Dylan Bullard, Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Garlick, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Louise Hughes, Aeron M Jones, Aled Wyn Jones, Charles Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Linda Wyn Jones, Sion Jones, Cai Larsen, Dilwyn Lloyd, Roy Owen, Jason Parry, Elfed Roberts, Mike Stevens, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Atal (4)**

Y Cynghorydd Freya Hannah Bentham, Dylan Fernley, Eric Merfyn Jones a Dewi Roberts.

Gan fod canlyniad y bleidlais ar yr argymhelliad yn gyfartal, defnyddiodd y Cadeirydd ei phleidlais fwrw o blaid yr argymhelliad.

**Penderfynwyd,**

i. **mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011 i 2026 fel y diwygiwyd gan newidiadau a argymhellwyd gan yr Arolygydd yn yr adroddiad ar yr Archwiliad (dyddiedig 30 Mehefin 2017)**

ii. **cyhoeddi'r Cynllun a fabwysiadwyd, y Datganiad Mabwysiadu, Adroddiad AG/AAS terfynol a'r adroddiad ARhC.**

iii. **yn rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion i gywiro unrhyw wallau teipio a gramadegol, i ymdrin ag unrhyw fân faterion cywirdeb neu gamgymeriadau, yn ogystal ag ymgymryd ag unrhyw faterion cyflwyno eraill angenrheidiol a newidiadau canlyniadol (sydd eu hangen yn dilyn y newidiadau argymhellir yn unol â pharagraff 1.10 yn adroddiad yr Arolygydd), cyn cyhoeddiad terfynol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.**

iv. **Bod y Canllawiau Cynllunio Atodol a gafodd eu mabwysiadu i gefnogi'r cynlluniau datblygu presennol, yn parhau i fod yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, lle mae'n briodol, nes eu bod yn cael eu disodli gan rai newydd neu'n cael eu tynnu'n ôl.**

v. **Bod y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi eu hadnabod yn Atodiad 9 o'r Cynllun yn cael eu paratoi gan roi blaenoriaeth i:**
- **CCA Cynnal a Chreu Cytundebau Unigryw a Chynaliadwy**
- **CCA Tai Fforddiadwy**
- **CCA Tai Marchnad Lleol**
- **CCA Math a Chymysgedd Tai**
- **CCA Ymrwymiad Cynllun,**

**yn unol ag amserlen fframwaith monitro'r Cynllun**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.30pm.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **5 Hydref 2017** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2016/17** |
| **Awdur** | **Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid hefyd gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn.

**3.** Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**Argymhelliad**

**4.** Derbyn yr adroddiad

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2016 - 2017



www.gwynedd.llyw.cymru

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Yn rhagair adroddiad llynedd soniais am y ddaeargryn gyfansoddiadol ddaeth yn sgìl y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Prin y byddai unrhyw un wedi rhagweld y byddai cymaint o sylw yn cael ei roi i 'newyddion ffug' ac y byddai mor anodd dehongli o'r cyfryngau torfol a chymdeithasol beth sy'n wir a beth sy'n gelwydd.

Bu cynnydd ar lefel Gymreig a chenedlaethol yn niferoedd troseddau casineb a chynnydd yn yr adroddiadau am ddiffyg goddefgarwch yn wleidyddol a chymdeithasol. Gwelwn dueddiad o bolareiddio barn, sy'n cael ei fwydo gan y cyfryngau cymdeithasol a'r papurau tabloid 'cenedlaethol', a'r gwahanol garfannau'n bwyd a rhannu'r rhagfarnau ymysg ei gilydd heb allu cyfathrebu'n waraidd â'i gilydd.

Dyma'r hinsawdd y mae Cyngor Gwynedd a'r Pwyllgor Safonau'n gweithredu ynddo.

Yn ffodus, fel y gwelwch eleni eto, dydi'r adroddiad yma ddim yn faith ac mae hynny'n glod i'r Cyngor, i'w swyddogion a'i Aelodau Etholedig fel ei gilydd. Bu pwyslais ar hyfforddi, a mawr yw'n diolch i'r Swyddog Monitro a'i dîm am fynd i'r afael a hynny. Nid gwaith hawdd o ystyried fod 75 o gynghorwyr a 64 Cyngor Cymuned.

Nid da lle gellir gwell. Mae'r gyfundrefn llywodraeth leol yn parhau i amlhau cyfrifoldebau ac rydym fel Pwyllgor ar yr un daith o ddysgu â chwithau. Hoffwn annog pawb i fanteisio ar y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor er mwyn sicrhau fod safonau bywyd cyhoeddus yng Ngwynedd yn cael eu cynnal bob amser.

Rydym mewn cyfnod gwleidyddol cythryblus. Gobeithio y bydd Gwynedd yn gallu dangos y ffordd ac arwain drwy esiampl dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

*Dr Einir Young*
*Cadeirydd y Pwyllgor Safonau*

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ar ddiwedd cyfnod Cyngor Sir a Chymuned ar drothwy etholiadau lleol. Mae'n galonogol unwaith eto gweld fod nifer y cwynion a'r ymchwiliadau yn parhau yn gymharol isel. Nid yw hyn i awgrymu nad yw gwaith cynnal a hyrwyddo ymddygiad yn mynd ymlaen yn gyson. Mae hyn yn golygu deialog parhaol ag aelodau'r Cyngor yma ac aelodau a chlercod Cynghorau Cymuned, gan ddarparu arweiniad a chefnogaeth. Rhaid cydnabod fod elfen o'r gwaith yma ynglŷn â rheoli disgwyliadau o safbwynt ymyrraeth a gorfodaeth. Mae cyfuniad o ymwybyddiaeth o hawliau mynegiant gwleidyddol Erthygl 10 y Cytundeb Hawliau Dynol, ynghŷd â defnydd yr Ombwdsmon o'r prawf budd cyhoeddus i hidlo cwynion, yn golygu nad yw pob cwyn neu dramgwyddiad o'r Cod yn arwain yn anorfod at broses ymchwilio ffurfiol. Fodd bynnag mae'r darlun yn gyffredinol gadarnhaol gyda thrwch helaeth o Aelodau yn ymagweddu'n gadarnhaol at ofynion y Cod ac at egwyddorion Safon Gwynedd.

*Iwan Evans*
*Swyddog Monitro*
*Cyngor Gwynedd*

# CYFLWYNIAD


Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol



**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.



**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.

Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi a'i chi ar daith o amgylch Llwybr Arfordir Cymru gyda'i chwaer.



**Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr Ian, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.



**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.



**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

# Aelod Pwyllgor Cymunedol



**Cynghorydd David Clay (aelod ers 2008)**

Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 29 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Mae hefyd yn gyn gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

# Aelodau Cyngor Gwynedd



**Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers 2011)**

Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae hefyd yn Bencampwr Gofalwyr y Sir. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.



**Cynghorydd Michael Sol Owen (aelod ers 2012)**

Mae Michael yn byw ym Mhwllheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012. Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwllheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuenctid Pwllheli. Mae'n gyn-Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac mae'n gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.



**Cynghorydd Lesley Day (aelod ers 2014)**

Bu Les yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012 ac ar hyn o bryd mae hi'n gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae hi wedi bod yn Gynghorydd Dinas Bangor ers 1991 ac mae hi'n gyn-faer, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae hi'n gyn-aelod ar Gyngor Bwrdeistrefol Arfon.

Mae cymwysterau, gyrfa a diddordebau Les yn gyfan gwbl mewn Llywodraeth Leol. Cafodd ei chymhwyster cyntaf mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Surrey. Ar ôl dychwelyd i Fangor, ei thref enedigol, cafodd gymwysterau ariannol llywodraeth leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Ar ôl yr aildrefnu yn 1996, trosglwyddodd Les i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Les yn Gadeirydd Canolfan Gymdeithasol Garth ac yn llywodraethwr yn Ysgol Hirael.

# Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro.
  E-bost: **IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru** Ffôn 01286 679015

- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).
  E-bost: **sionhuws@gwynedd.llyw.cymru** Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2016 - 2017

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

**Achosion fu gerbron y Pwyllgor**

Eleni, ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad.

**Cwynion eraill**

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

**Goddefebau**

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor bedwar cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma oddi wrth aelodau Cynghorau Cymuned. Gwrthodwyd dau gais tra caniatawyd dau.

**Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn cynghori ar yr hyfforddiant ar y cod ymddygiad oedd i'w gynnig i aelodau yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Fel canlyniad, darparwyd yr hyfforddiant hynny fel rhan o'r broses o anwytho aelodau i Gyngor Gwynedd a bydd sesiynau mwy manwl hefyd yn cael eu cynnal. Bydd sesiynau hyfforddi hefyd yn cael eu cynnig i'r cynghorau cymuned a thref.

**Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Eleni cefnogodd y Pwyllgor gais gan Bwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys i ymuno â'r Fforwm.

**Atodiad 1**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2016-17

**18 Ebrill 2016**

- Cynnal Hunanasesiad a llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Ystyried y diwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol
- Ystyried y broses o osod y Gofrestr Buddiannau Aelodau ar lein
- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb

**27 Mehefin 2016**

- Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2016/17
- Adolygu'r drefn i aelodau fynychu ac arsyllu cyfarfodydd pwyllgorau a chynghorau cymuned

**3 Hydref 2016**

- Ystyried y trefniadau ar gyfer Etholiadau Lywodraeth Leol 2017
- Trafod y drefn ddatrys leol arfaethedig ar gyfer cynghorau cymuned
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2015/16

**23 Ionawr 2017**

- Cymeradwyo trefn i benodi aelodau i'r Pwyllgor yn dilyn yr Etholiadau
- Ystyried cais i ymestyn aelodaeth Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru
- Derbyn diweddariad ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau
- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb

## Atodiad 2

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Bod cynghorydd wedi cyhuddo'r achwynydd (cyd-gynghorydd tref) ar gam o wneud sylwadau difrïol, gwahaniaethol a rhagfarnllyd ar sail oed amdani mewn cyfarfod o'r cyngor, ac a gyhoeddwyd wedi hynny mewn papur newydd lleol. | Dim ymchwiliad. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi'i argyhoeddi y byddai cynnal ymchwiliad er budd y cyhoedd, er ei fod yn benderfyniad agos iawn. Ysgrifennodd yr Ombwdsmon at y cynghorydd i'w hatgoffa i ystyried ei rhwymedigaethau o dan y Cod Ymddygiad. |
| Bod y cynghorydd wedi dosbarthu gwybodaeth gamarweiniol am yr achwynydd (cyd- gynghorydd tref) yn datgan ei bod wedi pleidleisio mewn cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio. Nid oedd yn aelod o'r pwyllgor ond bresennol fel sylwedydd yn unig. | Dim ymchwiliad. Nid oedd y cynghorydd a gyhuddwyd yn bresennol yn y cyfarfod, ond ar sail y dystiolaeth oedd ar gael nid oedd yn afresymol i unigolyn i gymryd yn ganiataol bod yr achwynydd wedi bod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio mewn perthynas â'r eitem dan sylw. Roedd hi hefyd wedi manteisio ar y cyfle i egluro ei sefyllfa mewn erthygl papur newydd. Nid oedd er budd y cyhoedd i ymchwilio i'r gŵyn. Roedd y wybodaeth a dosbarthwyd yn fras o natur wleidyddol ac nid oedd yn amharchus neu sarhaus mewn tôn. |
| Roedd y cynghorydd wedi aflonyddu ar yr achwynydd (cyd-gynghorydd tref) drwy wneud cwyn di-sail i'r Ombwdsmon yn ei erbyn ei fod ef wedi aflonyddu arno. Roedd hefyd wedi defnyddio deunydd ysgrifennu'r cyngor wrth wneud hynny. Roedd hefyd yn honni bod y cynghorydd wedi methu â datgan buddiant mewn cyfarfod. | Dim ymchwiliad. Roedd yr Ombwdsmon eisoes wedi penderfynu peidio ymchwilio i'r gŵyn aflonyddu a fyddai dim yn cael ei ennill wrth ail-agor y mater. Roedd y cynghorydd yn ymgymryd â busnes y cyngor pan ddaeth ei bryderon ynghylch aflonyddwch i'r amlwg. Er bod y cynghorydd wedi gadael y cyfarfod dan sylw nid oedd wedi hysbysu'r cyngor yn agored o'r rheswm dros wneud hynny, sy'n ofynnol o dan y cod. Ni fyddai ymchwiliad fod er budd y cyhoedd ond byddai'r Ombwdsmon yn atgoffa'r cynghorydd ei ddyletswyddau o dan y cod. |

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd. | Ombwdsmon wedi ymchwilio - dim tystiolaeth o dorri'r cod. |
| Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd. | Yn dilyn ymchwiliad penderfynodd yr Ombwdsmon fod ymddygiad y cynghorydd yn groes o bosib i'r Cod, ond nad oedd budd i'r cyhoedd i gyfeirio'r cynghorydd at y Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru, o ystyried ei fod, erbyn hynny, wedi ymddiswyddo o'r Cyngor. |
| Cwyn bod cynghorydd sir wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn eitem oedd ger bron pwyllgor am benderfyniad. | Dim ymchwiliad. Achwynydd heb gyflwyno tystiolaeth ddigonol i gefnogi ei gŵyn. |
| Bod aelod cyngor sir wedi ymddwyn yn amhriodol wrth gefnogi cais cynllunio yn ei etholaeth mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio. | Dim ymchwiliad. Nid oedd yr aelod yn aelod o'r pwyllgor ac roedd wedi datgan buddiant ac nid oedd hwnnw yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Roedd ganddo'r hawl i siarad a mynegi ei farn fel aelod lleol. |
| Nad oedd aelod cyngor sir o'r Pwyllgor Cynllunio wed i ymddwyn yn briodol a diduedd wrth benderfynu ar gais cynllunio. | Dim ymchwiliad. Nid oedd yr achwynydd wedi darparu unrhyw dystiolaethi gefnogi ei gŵyn. |

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **5 Hydref 2017** |
| **Pwnc** | **Penodi Aelodau Etholedig i'r Pwyllgor Safonau** |
| **Aelod Cabinet** | **Dirprwy Arweinydd: Cyng. Mair Rowlands** |
| **Awdur** | **IWAN EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**Cefndir**

1. Mae naw aelod ar y Pwyllgor Safonau, sef

- 5 'Aelod Annibynnol' (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol)
- 1 'Aelod Pwyllgor Cymunedol' sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd)
- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Penodwyd un aelod etholedig i'r Pwyllgor gan y Cyngor ym mis Mehefin eleni ond mae dwy sedd yn parhau'n wag. Ysgrifennais eto felly at bob aelod o'r Cyngor i wahodd ceisiadau, ac yna cyflwyno'r ceisiadau a dderbyniwyd i Grŵp Busnes Y Cyngor am ystyriaeth. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno argymhelliad y Grŵp Busnes i'r Cyngor Llawn, sydd â'r hawl i wneud y penodiad.

3. Penodir aelodau i'r Pwyllgor, nid ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ond drwy ystyried y meini prawf a sefydlwyd gan y Cyngor, sef bod rhaid meddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

4. Derbyniwyd dau gais, gan y Cynghorwyr Beth Lawton ac Anne Lloyd-Jones. Penderfynodd y Grŵp Busnes fod y ddau ymgeisydd yn cwrdd â'r meini prawf ac yn deilwng o gael eu penodi i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

5. Penodi'r **Cynghorwyr Beth Lawton ac Anne Lloyd-Jones** i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelodau Etholedig tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **6 Hydref 2017** |
| **PWNC** | **Dogfen Ymgynghori - Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **AWDURON** | **Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**Geraint Owen – Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno sylwadau drafft mewn ymateb i'r papur ymgynghorol.** |

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Ymgynghorol ar drefniadau etholiadol ar gyfer Llywodraeth Leol. Amlinellir nifer o syniadau ar gyfer diwygio'r drefn etholiadol a chofrestru etholwyr yng Nghymru. Mae hyn yn sgil yr ymgynghoriad a fu tua 8 mis yn ôl ar gynigion yn y Papur Gwyn – "Llwydoraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad" oedd yn cynnwys, ystod o gynigion ynglŷn â threfniadaeth llywodraeth leol i'r dyfodol ond hefyd yn cyffwrdd ar faterion etholiadol.
2. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno sylwadau yn gosod dyddiad cau ar y 10fed o Hydref.
3. Wrth roi sylw i'r ddogfen ymgynghorol yma fe'i cylchredwyd i holl aelodau'r Cyngor gan geisio adborth. Er a chafwyd ymateb uniongyrchol mae'r draft o ymatebion wedi derbyn sylw gan aelodau'r Cabinet ac yn ymgorffori eu hawgrymiadau. Fe nodwch hefyd fod rhai materion allweddol eisoes wedi eu cyfarch yr ymateb aeth i'r Papur Gwyn ym Mis Mawrth eleni.

**ARGYMHELLIAD**

Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r atebion draft yn Atodiad 1 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**Papur Cefndir**

Llywodraeth Cymru – Dogfen Ymgynghori Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru – 18 Gorffennaf 2017

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-etholiadol-ym-maes-llywodraeth-leol-yng-nghymru

# ATODIAD 1

**SYLWADAU CYFFREDINOL:**

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar yr ymgynghoriad.  Mae'n deg nodi fod y Cyngor yn cydweld gyda nifer o'r egwyddorion sydd yn y papur i geisio hybu cynhwysiad a chyfranogiad mewn etholiadau a democratiaeth yn gyffredinol.  Mae’r cysyniadau am ostwng yr oedran pleidleisio, a cheisio trefniadau i’w gwneud yn haws i bobl bleidleisio trwy amrywiol ffyrdd ac o amrywiol leoliadau, yn arbennig yn electroneg, yn gysyniadau na ellir dim ond cytuno â hwy.

Fodd bynnag, wrth gydweld a'r egwyddorion clodwiw hyn, mae nifer o ffactorau sydd angen sylw pellach cyn ein bod yn hyderus i allu eu cefnogi.  Ymhelaethir yn yr atebion fesul cwestiwn, ond, yn gyffredinol, mae'r datblygiadau yn ddarostyngedig i sicrhau y gall unrhyw newidiadau (yn arbennig o safbwynt trefniadau cofrestru a phleidleisio yn electroneg) fod yn wirioneddol hygyrch i etholwyr, gan sicrhau diogelwch a hyder cyhoeddus yn y bleidlais.  Rhaid nodi fod yr ymgynghoriad yn cyflwyno nifer o syniadau amrywiol mewn modd lled ar wahân ond sydd mewn gwirionedd yn gorgyffwrdd neu gyd ddibynnu ar gysyniadau eraill i’w llawn gloriannu.

**C1 – A ydych yn cytuno y dylai’r oed i gael hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael ei ostwng i 16?**

Mae’r Cyngor eisoes wedi datgan yn ei ymateb i’r Papur Gwyn “Llywodraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad” ei fod o blaid hyn.

**C2 – A ddylai dinasyddion yr UE sy’n symud i Gymru ar ôl i’r DU adael yr UE barhau i gael yr hawl i bleidleisio?**
**C3 – A ddylai hawliau pleidleisio gael eu hestyn i’r holl drigolion cyfreithlon yng Nghymru, heb ystyried eu cenedligrwydd na’u dinasyddiaeth?**
**C4 – Caiff dinasyddion yr UE a’r Gymanwlad sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol yng Nghymru. A ddylai hyn barhau a chael ei estyn i bob cenedl sy’n dod yn gymwys i bleidleisio?**

Yn amlwg mae natur preswyliad unigolion o fewn ardal yn berthnasol i’r hawl i bleidleisio. Fodd bynnag fel egwyddor gyffredinol mae’r Cyngor yn cefnogi’r cysyniad y dylai unigolion sydd yn trigo o fewn ardal fod a’r cyfle i gyfrannu at brosesau democrataidd sydd ynglŷn â’r gwasanaethau sydd yn cael eu defnyddio a derbyn ac yn cyfrannu tuag atynt.

**C5 – A ddylai swyddogion cofrestru etholiadol fod â mwy o ddewis o ffynonellau ar gael iddynt i helpu dinasyddion i gael eu hychwanegu i’r gofrestr?**

**C6 – Yn eich barn chi, pa ffynonellau data y dylai swyddogion cofrestru etholiadol eu defnyddio?**

Defnyddir ffynonellau gwybodaeth megis Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn o bryd i wirio ceisiadau Cofrestru unigol. Byddai ffynonellau ychwanegol yn amlwg yn gyfrwng i hwyluso’r gwaith. Fodd bynnag mae gofyn i’r rhain fod yn berthnasol ac yn ddibynadwy i gyfarch gosod unigolyn ar gofrestr etholwyr statudol gan sicrhau fod natur a ffiniau cyfrifoldebau i wella a diwygio cais yn eglur. Mae mynediad at ffynonellau dibynadwy o ystyried y ddyletswydd i gofrestru yn agor y drws i drafodaeth ar gofrestru awtomatig a byddai’r Cyngor yn croesawu’r deialog yma.

**C7 – A ddylai ystod ehangach o staff awdurdodau lleol gael yr hawl i helpu dinasyddion i gofrestru drwy gael mynediad i'r gofrestr llywodraeth leol a bod â'r gallu i'w diwygio?**

**C8 – Pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio i sicrhau bod y swyddog cofrestru etholiadol yn cadw'r rheolaeth gyffredinol dros y gofrestr?**

Mae eisoes modd o ddefnyddio adnoddau staff amgen yn ddarostyngedig i sicrhau fod y trefniadau yn gadarn a dan oruchwyliaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol ("SCE") sydd a'r cyfrifoldeb terfynol am y gofrestr. Dylai unrhyw fesurau rheoli fod yn addas i fodloni'r SCE ei fod ef neu hi yn cyfarch eu dyletswyddau statudol personol. Ni ystyrir fod angen i hyn fod yn destun deddfwriaeth.

**C9 –A ddylai rheolau cofrestru unigolion gael eu llacio i ganiatáu ar gyfer cofrestriadau bloc mewn amgylchiadau penodol, gan ddiogelu hawliau pleidleisio poblogaethau a fyddai fel arall mewn perygl o gael eu heithrio?**

Wrth gwrs byddai hyn yn symudiad oddi wrth drefn gofrestru unigol bur a byddai angen sicrwydd fod yr unigolion sydd yn rhan o'r "bloc" am gofrestru yn yr ardal dan sylw a bod y wybodaeth yn gyflawn a chywir. Mae angen hefyd rhoi ystyriaeth i beth a olygir gan "bloc", y meini prawf ar gyfer ei ffurfio a ble yn union y gosodir y cyfrifoldeb am ei weinyddu. Mae hyn yn cyplysu a'r drafodaeth ar gofrestru awtomatig a C6 uchod

**C10 – A ddylem roi dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i ystyried a ddylai unrhyw grwpiau unigol yn eu hardal etholiadol gael eu targedu'n benodol mewn ymgyrchoedd cofrestru?**

Mae hyn eisoes yn rhan o waith yr SCE. Ni welir sut y byddai gosod dyletswydd benodol yn ychwanegu at hyn.

**C11 – A ddylem gyflwyno trefniadau sy'n golygu bod gan asiantaethau sy'n ymwybodol o bobl yn symud ddyletswydd i roi gwybod i'r swyddogion cofrestru etholiadol?**

Mae perygl yn y prosesau yma y bydd SCE yn derbyn data o amrywiol berthnasedd o lawer ffynnhonell a dan ddyletswydd i ymateb a gwirio i bob un. Mae'r egwyddor yn sylfaenol dderbyniol ond mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i berthnasedd a gwerth y ffynnhonell. Er enghraifft, gall materion megis treth Cyngor a budd-daliadau fod yn berthnasol gan fod newidiadau yn fwy tebygol o fod yn dymor hir. Ar y llaw arall gall newidiadau yng nghyd-destun asiantaethau eraill fod yn dymor byr ac ansefydlog gan gynhyrchu gofynion gwerthuso gwybodaeth di angen.

**C12 – Beth yw eich barn am ddatblygu un gofrestr electronig i Gymru?**

Mae'n anodd cloriannu'r manteision ac anfanteision o ddarparu sustem o'r fath heb ddod i gasgliad ynglŷn â materion megis pleidleisio electroneg fyddai'n ystyriaeth berthnasol a hefyd natur gweinyddiaeth y sustem. Nid yw'r manteision yn amlwg yn y cyd -destun yma na'r rôl a gwerth mae gwybodaeth leol yn ei gyflawni wrth weinyddu'r gofrestr.

**C13 – A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau fod yn gallu dewis eu system bleidleisio?**
**C14 – A ydych yn cytuno y dylid cael mwyafrif dau draean ar gyfer newid cyfansoddiadol fel hwn?**

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan yn ei ymateb i'r Papur Gwyn "Llywodraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad" ei fod o'r farn y dylid fod un sustem bleidleisio ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Croesawir y drafodaeth ar ba sustem etholiadol fyddai fwyaf addas ar gyfer cyfarch gofynion Llywodraeth Leol. O ystyried ei safbwynt ar y cysyniad o sustemau dewisol mae o'r farn mai mater i'r Llywodraeth fyddai deddfu yn hytrach na drwy refferendwm lleol.

**C15 – A ydych yn cytuno y dylai cyfnod llywodraeth leol yng Nghymru gael ei bennu'n gyfnod pum mlynedd?**

Cytuno

**C16 – A ydych yn cytuno mewn egwyddor y byddai'n fuddiol diwygio'r system bleidleisio i annog mwy o bobl i gymryd rhan?**

**C17 – A oes unrhyw gynlluniau eraill na roddir sylw iddynt y gellid eu defnyddio i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau yng Nghymru?**

Wrth gwrs mae unrhyw ddiwygiadau sydd yn annog mwy o bobl i gymryd rhan i'w croesawy. Cydnabyddir fod angen i unrhyw newidiadau ddod a buddion amlwg, bod yn wirioneddol hygyrch i etholwyr a sicrhau diogelwch a hyder cyhoeddus yn y bleidlais.

**C18 – A ddylai cynghorau gael dewis defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn etholiadau cyngor?**
**C19 – A ddylid cynnal ymarferiadau treialu i ddechrau?**
**C20 – A ddylai cynghorau gael defnyddio system bleidleisio drwy'r post yn unig mewn ward unigol neu mewn nifer o wardiau o fewn ardal y cyngor?**

Mae treialu ar sustemau o'r fath ar y gweill ar hyn o bryd a byddai'n briodol rhoi ystyriaeth i ganlyniadau'r gwaith yma. Mae hefyd angen cloriannu'r dewis o ddulliau pleidleisio sydd ar gael i unigolion. Ni ellir anwybyddu'r oblygiadau adnoddau sylweddol posib sydd yn ynghlwm a chynnal pleidlais bost yn unig ar unrhyw etholiad o faint mwy na ward unigol. Yn ogystal, noder fod pleidlais drwy'r post yn unig yn lleihau'r dewis i'r etholwr o sut i bleidleisio a byddai penderfyniad i gymryd rhan (yn groes i'r cynigion isod) symud i''r cyfeiriad yma angen cyfarch hyn.

**C21 – A ddylai pleidleisio electronig fod ar gael mewn etholiadau lleol?**
**C22 – A ddylai pleidleisio o bell fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

Byddai angen sicrhau ffydd y cyhoedd mewn cyfundrefn bleidleisio electroneg. Mae'r gyfundrefn pleidleisio post a thrwy "proxy" ar hyn o bryd yn cynnig hyblygrwydd i etholwyr. Rhaid hefyd sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau sustemau newydd yn cyd-weddu ac yn asio gydag unrhyw sustemau amgen eraill fyddai yn parhau er sicrhau cadernid y broses.

**C23 – A ddylid cyflwyno cyfrif electronig ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru?**

Yn ddarostyngedig fod y sustem yn dryloyw a rhoi sicrwydd o gywirdeb y cyfrif o'r cychwyn a chynnal hyder y cyhoedd yn y drefn yna nid oes gwrthwynebiad i gyfeiriad o'r fath. Byddai angen cyfarch oblygiadau adnoddau symud i'r drefn

**C24 – A ddylai gorsafoedd pleidleisio symudol fod ar gael mewn etholiadau lleol?**

Mae'n anodd gweld beth fyddai gwerth sustem o'r fath a amlinellir gan y byddai yn golygu defnydd sylweddol o adnoddau ac o bosib yn cael yr effaith o gwtogi ar y ffenest pleidleisio oherwydd ei natur symudol.

**C25 – A ddylem alluogi swyddogion canlyniadau i ddefnyddio mannau pleidleisio eraill yn ogystal â'r gorsafoedd pleidleisio sefydlog?**

Byddai angen ystyried hyn yng nghyd-destun trefniadau pleidleisio sydd yn caniatáu pleidleisio mewn lleoliadau "ad-hoc". Mae'r sustem bresennol yn seiliedig ar gofrestr o fewn ardal pleidleisio a gorsaf benodol a byddai angen symud o'r sustem yma neu at drefn electroneg gyfansawdd.

**C26 – A ddylem ei gwneud yn bosibl i etholiadau lleol gael eu cynnal ar fwy nag un diwrnod ac ar ddyddiau heblaw dydd Iau?**

Mae oblygiadau adnoddau sylweddol i gynnal etholiad ar fwy nac un diwrnod gan y byddai angen staffio gorsafoedd ar gyfer pob cyfnod a ni ystyrir fod hyn yn ddymunol Nhaf ymarferol. Fodd bynnag mae'r Cyngor o'r farn fod lle i roi ystyriaeth i ymarferoldeb cynnal etholiadau ar ddyddiadau amgen megis Dydd Sadwrn neu Ddydd Sul.

**C27 – A ddylid ystyried symleiddio'r deunydd darllen a'r trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post?**
**C28 – Yn eich barn chi, sut y dylai'r broses gael ei symleiddio?**

Mae lle o hyd i roi ystyriaeth i symleiddio cyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag nid yw profiad prosesu pleidleisiau post wedi amlygu tystiolaeth fod y gofynion sylfaenol o ddarparu dyddiad geni a llofnod yn ei hun yn cael ei gamddeall. Eto, mae angen tynnu balans er sicrhau nad yw'r sicrwydd a phriodoldeb yn cael ei golli drwy or-symleiddio.

**C29 – A ddylai etholwyr sy'n mynd i orsaf bleidleisio orfod dangos dogfen adnabod cyn cael pleidleisio? Os felly, pa fathau o ddogfennau adnabod ddylai fod yn dderbyniol?**

**C30 – A yw manteision mynnu gweld dogfen adnabod yn fwy na'r perygl o rwystro pleidleiswyr?**

Byddai gofyn i'r dull adnabod fod yn glir i etholwyr, yn rhwydd i'w wirio ac yn ddigonol i adnabod unigolyn. Mae nifer o gwestiynau yn codi o safbwynt gwirio, gwrthod a materion mwy sylfaenol o amgylch unigolion nad oes ganddynt ddogfen adnabod e.e. drwydded yrru, passport neu fil cyflenwr yn eu henwau. Mae risg y byddai'n creu rhwystr all gael ardrawiad mwy nodweddiadol ar rai grwpiau o unigolion nac eraill hefyd. Felly, ym marn y Cyngor byddai angen achos eglur o blaid creu gofyn o'r fath a sicrhau nad yw'n creu rhwystr annerbyniol i'r hawl i fwrw pleidlais.

**C31 – A ydych yn cytuno na ddylai fod yn angenrheidiol bellach i gyhoeddi cyfeiriad cartref ymgeisydd mewn deunydd etholiadol, gan gynnwys unrhyw beth a gyhoeddir yn electronig?**

Derbyn y gellir rhoi dewis i unigolyn.

**C32 – A ydych yn cytuno y dylid gofyn i bob ymgeisydd ddarparu datganiad personol i'w gynnwys ar wefan a ddarperir gan yr awdurdod y maent yn gobeithio cael eu hethol iddo?**

Mater i ymgeisydd unigol yw hyn. Mae hefyd yn gosod gofyn ar y Swyddog Canlyniadau i sicrhau nad oes materion amhriodol neu anghyfreithiol yn cael eu gosod ar ddatganiad o'r fath.

**C33 – A ydych yn cytuno na ddylid caniatáu i neb wasanaethu fel Aelod Cynulliad a chynghorydd ar yr un pryd?**

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan yn ei ymateb i'r Papur Gwyn "Llywodraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad" ei fod yn cytuno a hyn.

**C34 – A ydych yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw ymlyniad gwleidyddol sydd ganddynt?**

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan yn ei ymateb i'r Papur Gwyn "Llywodraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad" ei fod yn cytuno a hyn.

**Q35 – Pa fath o dystiolaeth y dylai fod ei hangen i awgrymu bod ymlyniad gwleidyddol sydd heb ei ddatgelu?**

Byddai angen tystiolaeth o aelodaeth o blaid wleidyddol ar y dyddiad neu ddyddiadau perthnasol.

**C36– A ddylai unrhyw rai o staff y cyngor is law'r lefel uwch fod yn gallu sefyll mewn etholiad i'w hawdurdod eu hunain?**

Byddai'r Cyngor yn cefnogi hawl i aelodau staff nad ydynt yn ddarostyngedig i gyfyngiadau gwleidyddol sefyll fel ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae natur swyddogaeth cynghorydd a'i rôl, e.e. fel cyflogwr yn arwain i'r casgliad y dylai ymgeisydd llwyddiannus ymddiswyddo o'r gyflogaeth yn unol â threfn yr Alban

**C37 – A oes cyfiawnhad o hyd i gynghorau gadw rhestr o'r swyddi, heblaw am swyddi uwch-swyddogion, a ddylai fod dan gyfyngiadau gwleidyddol?**

Mae natur rhai Swyddi nad ydynt yn "Uwch Swyddogion" ond sydd yn gweithredu mewn fforymau cyhoeddus a gwleidyddol gynnhenus yn golygu y dylai'r llinell adlewyrchu natur dyletswyddau'r swydd.

**C38 – A ydych yn cytuno y dylai rôl y prif weithredwr statudol gynnwys rôl swyddog canlyniadau?**
**C39 – A ydych yn cytuno y dylai unrhyw ychwanegiad at gyflog i gydnabod dyletswyddau swyddog canlyniadau fod yn fater i'r awdurdod lleol benderfynu arno?**

Mae rôl y Swyddog Canlyniadau Gweithredol wrth gwrs yn gyfrifoldeb personol statudol annibynnol sydd yn disgyn i'r unigolyn yn hytrach na'r Awdurdod Lleol. Drwy symud i sustem yn y modd yr awgrymir ymddengys y byddai'r annibyniaeth yma a'r ddelwedd o'r annibyniaeth yn cael ei ddisodli ac yn effeithio yn sylweddol ar natur y rôl a'r atebolrwydd yma yng nghyd destun etholiadau Cymreig.

**C40 – A ddylai Llywodraeth Cymru symud at system o gyfrifo costau etholiadau Cynulliad yn ôl fformiwla y cytunwyd arni, wedi'i seilio ar faint yr etholaeth?**

Mae'r sustem bresennol yn gweithredu ar egwyddor gyffelyb. Gweinyddir yr etholiad ar yr egwyddor ei bod yn cael ei chynnal yn briodol gyda'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyflawni hyn. Yr unig adnodd sydd ar gael i'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau a refferenda cenedlaethol yw'r hyn a ddarperir drwy'r drefn yma. Wrth gwrs mae'n hollol briodol sicrhau fod unrhyw wariant yn rhesymol ac yn unol â'r gofynion. Awgrymir fod angen i'r drefn ganiatáu talu cyfanswm sydd o fewn y fformiwla yn unionsyth a dim ond awdit ar gyfer ceisiadau am daliadau ychwanegol

**C41 – A ddylid caniatáu i garcharorion Cymreig gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru?**
**C42 – Os felly, a ddylid cyfyngu hyn i rai sydd wedi'u dedfrydu i lai na deuddeg mis, pedair blynedd, neu ddedfryd o unrhyw hyd? Drwy ba ddull y dylai carcharorion fwrw pleidlais?**
**C43 – Ym mha gyfeiriad y dylai carcharorion gael eu cofrestru i bleidleisio?**

Mae gofyn i unrhyw gyfundrefn gyfarch penderfyniad Llys Cyfiawnder Ewrop ar hawliau carcharorion i bleidleisio. Nid oes gan y Cyngor farn benodol ar y mater yma. Fodd bynnag dylai unrhyw hawl pleidleisio fod ar gyfer yr ardal bleidleisio ble roedd yr unigolyn wedi ei gofrestru byddai yn cynnal y cyswllt a'r ardal.

**C44 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwygio etholiadol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**
**C 45 - Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall yr opsiynau arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Mae'n ddisgwyliad fod y gyfundrefn yn trin y Gymraeg yn hollol gyfartal yn unol â gofynion y gyfraith. Ni ddylai'r Gymraeg fod yn opsiwn i'w ddewis ar unrhyw ddogfen neu dudalen blaen ond yn hollol gyfartal a'r Saesneg hyd oni'r bod angen i ddewis iaith. Dylai hyn hefyd olygu fod modd derbyn gwasanaeth rhwydd yn y Gymraeg gan gynnwys mewn Gorsafoedd Pleidleisio.

**C46 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

**Rhowch eich sylwadau yma:**

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **5 HYDREF 2017** |
| **TEITL** | **ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2016-17** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO'R ADRODDIAD I'R CYNGOR LLAWN** |
| **AWDUR** | **GERAINT OWEN,<br>PENNAETH CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN,<br>ARWEINYDD Y CYNGOR** |
| **ARGYMHELLIAD** | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

**1.0 CEFNDIR**

1.1 Mae Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 Cyngor Gwynedd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Mawrth 2016.

1.2 Dylid pwysleisio nad adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor mo'r adroddiad hwn.

1.3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill, mae'r Arolygydd Cyffredinol yn nodi a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2017-18.

1.4 Ym marn yr Archwilydd "Mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol o ran gwelliant parhaus" gan ychwanegu "ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, a'r gwaith hwnnw yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18".

1.5 Mae'r Adroddiad yn datgan na wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyflwyno unrhyw argymhellion ffurfiol i wella ond byddwn yn nodi iddo wneud rhai cynigion ar gyfer gwella sy'n ymddangos yn yr adroddiad.

1.6 Bydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau gan dynnu sylw at y prif bwyntiau.

1.7 Bydd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru ar sail cynnwys yr adroddiad.

**2.0 ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17 – Cyngor Gwynedd

Issued: Mehefin 2017
Document reference: 334A2017



Lluniwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Paul Goodlad a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Huw Rees.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 4

Mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol o ran gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion i wella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2016-17 5

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 14

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 15

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 18

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth benderfynu ar gwmpas y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, bu inni ystyried hyd a lled yr wybodaeth a gasglwyd drwy archwiliadau ac arolygiadau, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ei hun. Yn 2016-17, roedd y gwaith a wnaed gennym i asesu gwelliant ym mhob cyngor yn seiliedig ar dair thema: llywodraethu, defnyddio adnoddau, a chynllunio gwelliant ac adrodd arno. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol a oedd yn seiliedig ar risg, fel y nodir yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, a'r gwaith hwnnw yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn credu bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2017-18.

## Argymhellion a chynigion i wella

4 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion i wella – os ydym yn cynnig gwelliannau i'r Cyngor, rydym yn disgwyl iddo wneud rhywbeth yn eu cylch a byddwn yn cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol i wella – os ydym yn gwneud argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw cyn pen 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion i wella, ac fe'u hailadroddir yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro'r cynnydd a wneir o ran y cynigion hyn a'r argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) fel rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2016-17

Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2016-17

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Mawrth 2017 | **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau** Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor o ran penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. | Mae trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd o ran newidiadau i wasanaethau yn gadarn ac yn gwella, ac maent yn cefnogi proses benderfynu effeithiol yn well.<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod newidiadau i wasanaethau yn yr arfaeth ac yn cael eu rhoi ar waith o fewn fframwaith strategol clir;<br>• bod y trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd i benderfynu ar yr angen i newid gwasanaethau, ac ar natur y newidiadau hynny, wedi'u diffinio'n glir a'u deall yn dda ar y cyfan;<br>• bod achosion busnes wedi'u strwythuro'n dda ac yn llawn gwybodaeth, ond nad yw'r pwyllgorau craffu bob amser yn adolygu ac yn herio'n amserol yr opsiynau o ran darparu gwasanaethau;<br>• bod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr ac yn eang;<br>• bod y trefniadau i fonitro effaith newidiadau i wasanaethau, eu hasesu, ac adrodd arnynt, yn parhau i gael eu hatgyfnerthu;<br>• bod yr hunanasesiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar risg ac yn hybu gwelliant parhaus. | Byddai modd cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newidiadau mawr i wasanaethau drwy:<br>C1 Rhoi cyfle i'r pwyllgorau craffu adolygu a herio achosion busnes newidiadau i wasanaethau mewn ffordd amserol cyn bod y Cabinet yn penderfynu'n derfynol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau** | | | |
| Rhagfyr 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16** Llythyr sy'n crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Ceir copi o'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn. | • cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau;<br>• rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;<br>• rwyf wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ar 30 Medi 2016;<br>• nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma i ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na'r systemau ariannol allweddol. | Dim. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2017 | **Cynllunio arbedion**<br>Adolygiad o drefniadau arbedion ariannol y Cyngor, gan gynnwys pa mor dda y mae'n cyflawni'r arbedion gofynnol ac a yw'n mynd ati mewn ffordd gadarn i gynllunio, i reoli ac i gyflawni arbedion cyllidebol ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | Mae'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio arbedion mewn ffordd effeithiol ac ystyrlon, ac mae hyn yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>Yr arbedion a wnaed yn 2015-16<br>• yn ôl adroddiadau'r Cyngor, mae wedi cyflawni 91% o arbedion arfaethedig 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos iddo gyflawni arbedion unigol.<br>Trefniadau cynllunio ariannol<br>• mae trefniadau cynllunio ariannol cadarn ar waith yn y Cyngor ac maent yn cael eu hategu gan gynlluniau arbedion a ystyriwyd yn ofalus.<br>Cynllun Arbedion 2016-17<br>• mae gan y Cyngor gynlluniau arbedion manwl ac mae'n rhagweld y bydd yn cyflawni 93% o gynllun arbedion 2016-17. | C1 Cryfhau'r trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• sicrhau bod yr amserlenni cyflawni a geir mewn achosion busnes yn gadarn;<br>• sefydlu dull mwy corfforaethol o bennu cyfleoedd incwm. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad perfformiad lleol sy’n seiliedig ar risg** | | | |
| Hydref 2016 | **Rheoli asedau**<br>Adolygiad o asedau tir ac adeiladau’r Cyngor, gan gynnwys safleoedd a ddefnyddir gan y Cyngor i ddarparu ei wasanaethau a safleoedd lle mae’r Cyngor yn gweithredu fel landlord ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus a’r sector preifat. | Mae’r modd y mae Cyngor Gwynedd yn mynd ati i reoli asedau eiddo’n cefnogi penderfyniadau a gwelliannau cadarn ac effeithiol.<br>Daethom i’r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod y gwaith o reoli asedau eiddo’n seiliedig ar weledigaeth glir sy’n ystyried anghenion lleol ac yn cefnogi blaenoriaethau’r Cyngor, er nad yw’r gwaith o reoli asedau ar y cyd â phartneriaid wedi datblygu’n ddigonol;<br>• bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol i reoli ei asedau tir ac eiddo;<br>• bod y Cyngor yn ymgysylltu’n rheolaidd â rhanddeiliaid pan fo’n rheoli ei asedau;<br>• bod y modd y mae’r Cyngor yn mynd ati i reoli perfformiad yn hybu gwelliant parhaus. | Nid oes gan y Cyngor a’i bartneriaid ddull systematig o reoli asedau ar y cyd<br>C1 Dylai’r Cyngor arwain y blaen drwy ailagor trafodaethau â phartneriaid lleol a rhanbarthol ynghylch datblygu dull systematig o gynllunio asedau ar y cyd, gan gynnwys cyfleoedd i:<br>• gytuno ar systemau rheoli perfformiad ar y cyd, a’u defnyddio;<br>• sefydlu cyrff darparu gwasanaethau eiddo ar y cyd;<br>• sefydlu cyrff dal eiddo ar y cyd. |

Tud. 53

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| Hydref 2016 | **Adolygiad Technoleg Gwybodaeth**<br>Adolygiad o'r graddau y mae trefniadau'r Cyngor i ddatblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus. | Mae Gwasanaeth TGCh y Cyngor wedi gwella ers 2011, ac mae bellach mewn gwell sefyllfa i gefnogi nodau a dyheadau'r Cyngor, ond nid yw'r trefniadau llywodraethu'n ddigon cadarn.<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• nid yw'r trefniadau llywodraethu technoleg gwybodaeth yn cael eu rhoi ar waith yn gyson nac yn ddigon cadarn i gefnogi cynllunio a buddsoddi effeithiol, ond mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd TG o ran gwireddu gweledigaeth Ffordd Gwynedd;<br>• o dan Strategaeth TG flaenorol y Cyngor, sefydlwyd strwythurau, seilwaith a phrosesau rheoli gwasanaeth, ac mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth TGCh i ganolbwyntio yn ei strategaeth newydd ar gefnogi gweledigaeth Ffordd Gwynedd;<br>• mae Gwasanaeth TGCh y Cyngor wedi gwella'n sylweddol ers adolygiad diwethaf Swyddfa Archwilio Cymru yn 2011. | Cynigion i wella – Llywodraethu TG<br>C1 Adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Llywodraethu TG i sicrhau ei fod yn effeithiol o ran cytuno ar flaenoriaethau a gwneud argymhellion i'r uwch-reolwyr a'r Aelodau. Yn ogystal, mae angen i'r grŵp sicrhau cysondeb o ran:<br>• y model blaenoriaethu prosiectau TG;<br>• paratoi achosion busnes ar gyfer pob prosiect TG;<br>• adolygu pob prosiect TG ar ôl ei roi ar waith;<br>• defnyddio'r dull rheoli prosiectau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer pob prosiect TG mawr.<br>C2 Codi proffil y Grŵp Llywodraethu TG i sicrhau ei fod yn cwrdd yn rheolaidd a'i fod yn cyhoeddi ei agendâu, ei gofnodion a'i gamau gweithredu / argymhellion.<br>Cynigion i wella – Strategaeth TG<br>P3 Sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r Strategaeth TG newydd yn cynyddu ar draws y Cyngor.<br>P4 Gwella perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y Strategaeth TG ar draws y Gwasanaeth TGCh drwy sicrhau bod cysylltiadau clir rhwng cynlluniau gwasanaeth ac arfarniadau unigol a'r strategaeth.<br>P5 Darparu diweddariadau rheolaidd am hynt y Strategaeth TG i'r uwch-reolwyr a'r Aelodau.<br>Cynigion i wella – Gwasanaeth TGCh<br>P6 Llunio Cynllun Gwasanaeth TGCh cynhwysfawr sy'n cydweddu â'r Strategaeth TG newydd. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | **Strategaeth Pobl**<br>Adolygiad o'r graddau y mae trefniadau rheoli pobl effeithiol ar waith yn y Cyngor ac a yw'r Cyngor yn defnyddio ei weithlu mewn ffordd sy'n ei helpu i gyflawni ei amcanion strategol. | Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio sefydlu strategaeth pobl effeithiol sy'n gysylltiedig â gweledigaeth Ffordd Gwynedd, ond mae heriau'n parhau.<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br>• bod y Cyngor yn datblygu ei ddull o sicrhau bod ei drefniadau rheoli pobl yn cefnogi ei weledigaeth, ond hyd yma, nid yw wedi gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol na chyflwyno'r Strategaeth Pobl i'r Aelodau graffu arni;<br>• mae gan y Cyngor gyfres o bolisïau a nodiadau cyfarwyddyd o ran rheoli pobl, ond nid ydynt yn cydweddu'n llwyr â'r Strategaeth Pobl ddrafft hyd yma;<br>• er nad oes gan y Cyngor gynllun gweithlu, mae wrthi'n paratoi cynllun o'r fath;<br>• mae'r Cyngor wedi datblygu model partner busnes lle mae gan reolwyr broffil uwch o ran rheoli pobl, ond nid yw'n cael ei roi ar waith yn gyson ac nid yw'n glir sut y mae risgiau adnoddau dynol yn cael eu rheoli. | C1 Sicrhau perchnogaeth lawn gan yr Aelodau drwy iddynt graffu ar y Strategaeth Pobl a'i chymeradwyo'n ffurfiol.<br>C2 Diweddaru'r holl bolisïau rheoli pobl a'r canllaw i reolwyr i adlewyrchu'r Strategaeth Pobl newydd.<br>C3 Rhoi cynllun gweithlu corfforaethol cynhwysfawr ar waith.<br>C4 Cyflwyno'r broses gwerthuso newydd i'r holl staff. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2017 | **Rheoli risg** Asesiad sy'n seiliedig ar risg o drefniadau corfforaethol y Cyngor. | Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei drefniadau rheoli risg i'w alluogi i gefnogi proses benderfynu effeithiol a chadarn yn well. | Byddai trefniadau rheoli risg y Cyngor yn elwa o:<br>• ddatblygu dogfen tracio neu grynhoi risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol;<br>• cyflwyno mwy o gysondeb o ran pennu a rheoli risgiau mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i'r Aelodau;<br>• rhoi sylw amlycach i'r cysyniad o 'barodrwydd i wynebu risg' yn ei waith rheoli risg;<br>• cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau diwygiedig y Cyngor;<br>• hyfforddi'r swyddogion a'r Aelodau ynghylch rheoli risg fel rhan o fenter ehangach i godi ymwybyddiaeth. |
| **Cynllunio gwelliant ac adrodd arno** | | | |
| Ebrill 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor o ran cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliannau. | Dim. |

Tud. 56

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | **Archwiliad asesiad perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** Adolygiad o'r asesiad perfformiad a gyhoeddwyd gan y Cyngor. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad cryno | Casgliadau | Cynigion i wella |
|---|---|---|---|
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Mehefin 2016 | **Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu**<br>Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Pwrpas yr arolygiad oedd asesu llwyddiant gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol o ran cyflawni'r canlyniadau sydd o bwys i bobl. | Gallwch ddarllen yr adroddiad drwy ddefnyddio'r dolenni hyn:<br>Adroddiad llawn: Arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu - CYNGOR GWYNEDD<br>Fersiwn hawdd ei ddarllen o'r adroddiad | Argymhellion hawdd eu darllen:<br>C1 Mae angen i Gyngor Gwynedd wneud cynlluniau da ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn golygu:<br>• mae angen i'r Cyngor wybod beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu.<br>• rhaid i arweinwyr y Cyngor arwain pethau.<br>• rhaid i'r Cyngor weithio'n agos gyda phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol. Bydd angen cymorth ar rai pobl gan wasanaethau eiriolaeth i wneud hyn.<br>• rhaid i'r Cyngor weithio'n agos â darparwyr gwasanaeth; a bod.<br>• rhaid i'r Cyngor gynllunio gyda'r Bwrdd Iechyd sut i ddewis a phrynu gwasanaethau gyda'i gilydd yn y dyfodol.<br>C2 Mae angen i'r Cyngor gael ffordd i wneud yn siŵr ei fod yn cadw pobl yn ddiogel.<br>C3 Mae angen i'r Cyngor wirio ei fod yn cefnogi hawliau pobl y gallai fod angen cyfyngu ar eu rhyddid.<br>C4 Mae angen i'r Cyngor wneud yn siŵr bod staff yn cael y cyngor, y cymorth a'r oruchwyliaeth iawn.<br>Mae adroddiad yr arolygiad hefyd yn cynnwys amryw o argymhellion ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |

# Atodiad 1- Statws yr adroddiad hwn

## Statws yr adroddiad hwn

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub) i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'.

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hwn yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau yntau hefyd. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn paratoi adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cyflawni asesiad gwella o dan adran 18 ac yn datgan a yw (o ganlyniad i'w archwiliad gwella o dan adran 17) yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gyflawni arolygiadau arbennig (o dan adran 21) a fydd yn destun adroddiadau i'r awdurdod a'r Gweinidogion, a gall ef eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (yn unol â gofynion adran 23) gan ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 - Llythyr archwilio blynyddol

## Annual Audit Letter

Dilwyn Williams
Cynghorydd Dyfed Wyn Edwards
Cyngor Gwynedd
Shirehall Street
Caernarfon
LL55 1SH

Annwyl Dilwyn a Dyfed

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2015-16**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon (ar gyfer y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn) i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiadau ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 24 Medi 2015. Nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

Mae'n werth nodi hefyd fod y Cyngor wedi arwain y gwaith o baratoi cyfrifon y Cyd-bwyllgor GwE Cyd-Bwyllgor a'i fod hefyd wedi paratoi Ffurflenni Blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd. Ar 30 Medi 2016:

- rhoddais farn archwilio ddiamod ar gyfrifon GwE gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Pwyllgor.
- Cadarnheais fod y wybodaeth yn y ffurflenni blynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor AAA a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd yn unol ag arferion priodol.

Hysbyswyd y pwyllgorau perthnasol am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliadau hyn lle roedd yn briodol gwneud hynny. Unwaith eto, nid oes angen i mi ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

**Rwyf wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ar 30 Medi 2016.**

Nid wyf eto wedi cyhoeddi tystysgrif yn cwblhau'r archwiliad am fod mater heb ei benderfynu a oedd yn ymwneud â gwrthwynebiad a godwyd gan etholwr. Fodd bynnag, rwyf wedi cwblhau fy ngwaith ar y mater hwn ac wedi ymateb i'r etholwr gan nodi nad wyf yn bwriadu cymryd unrhyw gamau archwilio ffurfiol pellach.

Gan na fu unrhyw newidiadau i'r cyfrifon ers i mi roi fy marn ar 30 Medi 2015, rwyf yn bwriadu cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau, ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio ystyried fy adroddiad terfynol ac ailgymeradwyo'r cyfrifon. Rwy'n disgwyl i hyn ddigwydd ar ddechrau mis Rhagfyr 2015.

**Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 na systemau ariannol allweddol**

Mae fy rhaglen o waith archwilio ar hawliadau grant 2015-16 ym mynd rhagddi ar hyn o bryd. Hyd yma nid wyf wedi nodi unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio 2016.

Yn gywir



**Ian Howse**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3 - Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad yn 2014-15 (**Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru, Ebrill 2015**), gwnaethom nifer o argymhellion i'r awdurdodau lleol. Yn 2016-17, roedd nifer o'r argymhellion hyn yn dal i fod yn berthnasol ac roedd angen i'r awdurdodau wneud rhagor o waith i fynd i'r afael â nhw. Yn ogystal, gwnaethom yr argymhellion a ganlyn ar sail ein hadolygiad diweddaraf:<br>A1 Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu trefniadau cynllunio ariannol trwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'u blaenoriaethau corfforaethol a'u cynlluniau gwasanaeth;<br>• alinio strtegaethau allweddol eraill fel cynlluniau rheoli gweithlu ac asedau gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;<br>• datblygu cynlluniau arbedion amlflwydd cynhwysfawr wedi'u costio'n llawn sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cwmpasu cyfnod y Cynllun, nid y gyllideb flynyddol nesaf yn unig;<br>• categoreiddio cynigion ar gyfer arbedion fel y gellir monitro'r newid o fathau traddodiadol o arbedion i arbedion gweddnewidiol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a<br>• sicrhau bod amserlenni ar gyfer cyflawni cynigion penodol ar gyfer arbedion yn realistig a bod atebolrwydd am eu bodloni wedi'i neilltuo'n briodol.<br>A1 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau cynhyrchu incwm a chodi tâl corfforaethol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd werth gefn defnyddadwy a gasglwyd ac effaith a'r defnydd o'r rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A3 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbedion yn ddigon manwl i sicrhau bod aelodau'n eglur am yr hyn y bwriedir i'r cynlluniau ei ddarparu ac y gellir craffu'n briodol ar ddarpariaeth y cynlluniau hynny trwy gydol y flwyddyn.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod capasiti a gallu corfforaethol ar lefel sy'n gallu cefnogi darpariaeth cynlluniau arbedion yn effeithiol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar y cyflymder gofynnol. |

Tud. 63

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Mae'r saith argymhelliad a geir yn yr adroddiad hwn yn peri iddi fod yn ofynnol i amryw o randdeiliaid – Llywodraeth Cymru, Tîm Cymru yn y Swyddfa Gartref, comisiynwyr heddlu a throseddu, aelodau byrddau gwasanaethau lleol ac awdurdodau lleol – weithredu'n unigol ac ar y cyd:<br>A1 Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle'r fframwaith cynllunio cyfredol.<br>A2 Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati'n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle'r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy'n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio trwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n cynnwys gwaith pob partner ac sy'n nodi'r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol.<br>A4 Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella'r gwaith o gynllunio prosiectau a'r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli'n effeithiol trwy:<br>• osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol;<br>• sefydlu mesurau i feirniadu'r mewnbynnau, yr allbynnau a'r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi'r gwaith craffu a throsolwg.<br>A6 Adolygu'r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso'r effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm | Mae'r adroddiad hwn yn gwneud wyth argymhelliad, ac mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol roi sylw i chwech ohonynt. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru roi sylw i argymhellion A4 ac A6:<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad cadarn rhyngddynt a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A4 Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A5 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar gais, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig fel bo modd gwneud penderfyniadau cadarn.<br>A6 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector | Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys tri argymhelliad, ac mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol roi sylw i ddau ohonynt. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru roi sylw i argymhelliad A3:<br>A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymell y dylai swyddogion awdurdodau lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn ef feithiol i wneud y canlynol:<br>• hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector;<br>• nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso a'i roi ar waith.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwylio ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

# Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu

# 2016/17

## 1. Cyflwyniad

1.1 Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r maes diogelu ac wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Strategol. Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod Panel Strategol Diogelu plant ac oedolion wedi ei sefydlu ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Cabinet a'r Cyfarwyddwr Statudol o effeithiolrwydd ein trefniadau diogelu ac amddiffyn fel Cyngor.

1.2 Bwriad yr adroddiad felly yw ceisio rhoi trosolwg ar waith y Panel am y flwyddyn 2016/17 ynghyd a chrynhoi barn arolygwyr allanol ar ein trefniadau. Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn crynhoi er gwybodaeth ein bwriad o ran 2017/18.

1.3 Cadeirydd y Panel yn ystod y flwyddyn oedd Cynghorydd Mair Rowlands ac roedd hi yn cael ei chefnogi gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr statudol gyda chyfrifoldeb am y maes diogelu. Yn ogystal mae Cynghorydd Gareth Roberts a'r Cynghorydd Gareth Thomas wedi bod yn Aelodau o'r Panel oherwydd eu dyletswyddau yn y meysydd oedolion a phlant. O ran swyddogion mae sawl Pennaeth yn Aelodau o'r Panel (megis Addysg, Oedolion, Plant, Cefnogaeth Gorfforaethol) ac mae'r Swyddog Monitro hefyd yn aelod o'r panel.

1.4 I gefnogi'r gwaith mae Grŵp Gweithredol yn bodoli. Pwrpas y grŵp hwn yw gweithredu'r rhaglen waith a hefyd ymdrin â materion gweithredol. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys pencampwyr diogelu o bob adran o'r Cyngor. Mae Cadeirydd y grŵp Gweithredol hefyd yn aelod o'r Panel Strategol.

1.5 Prif ffocws y trefniadau uchod yw sicrhau bod gweithdrefnau corfforaethol diogelu'r Cyngor yn effeithiol ac yn gadarn. Yn ogystal, mae'n werth nodi bod bwriad i ehangu ffocws a chyfrifoldeb y Panel i gynnwys dyletswyddau gwrth derfysgaeth, dyletswyddau adnabod ac atal radicaleiddio, gofynion caethwasiaeth fodern, gofynion trais yn y Cartref a Gofynion Cynhwysiad Cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Panel gyda throsolwg o'r agenda diogelu ehangach sydd yn bodoli ac yn gwneud y defnydd gorau o'r grŵp gweithredol diogelu a'r swyddogion sydd yn bencampwyr yn y meysydd uchod.

1.6 Mae trefniadau arall yn bodoli, megis y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion Bregus, ar gyfer ymdrin â materion arbenigol y maes. Mae'r Byrddau hyn yn fyrddau statudol sydd yn draws asiantaeth, gyda chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i gyfrannu at y Byrddau hyn yn rhanbarthol o ran gweithredu. Ar ddiwedd yr adroddiad yma mae linc i adroddiad Blynyddol Y Byrddau Diogelu hyn.

1.7 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol i adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion Diogelu. Ein bwriad fydd i adrodd bob 6 mis ar y cynnydd o fewn y maes diogelu. Mae'r adroddiad yma yn edrych ar gyfnod blwyddyn 2016-17. Bydd adroddiad Cynnydd nesaf yn cael ei gyflwyno i aelodau ym Mis Tachwedd/Rhagfyr 2017 gydag adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno ym Mis Mai 2018.

## 2. Yr hyn sydd wedi ei wireddu yn ystod 2016/17.

| Maes Gwaith | Gweithred/Canlyniad | Statws |
|---|---|---|
| **D1- Sicrhau Perchnogaeth Cyngor Cyfan i'r Maes Diogelu** | | |
| Adolygu Polisïau a gweithdrefnau yn flynyddol | Mae pob adran wedi adolygu'r polisïau adrannol.<br><br>Mae adolygiad o'r Polisi Corfforaethol heb ei gyflawni oherwydd ein bod dal i ddisgwyl cyhoeddi cod ymarfer rhan 7 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | Tasg wedi llithro i raglen waith 2017-18 |
| Sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer mesur effaith y trefniadau diogelu corfforaethol | Mae annog perchenogaeth gorfforaethol o'r maes diogelu yn un o flaenoriaethau'r awdurdod. Ers mabwysiadau Polisi Diogelu Corfforaethol, a pholisïau Diogelu adrannol rydym wedi sicrhau fod gweithredu yn unol â'r polisi yn cael effaith ar ddiogelu plant ac oedolion bregus. Mae fframwaith mesur effaith wedi ei lunio ac wedi ei gyflwyno i'r Panel.<br><br>Mae grŵp Tasg hefyd wedi ei sefydlu i adolygu mesuryddion y Polisi Corfforaethol a bydd trefn casglu/adrodd yn cael eu cyflwyno i'r Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18. | Wedi ei gyflawni. Rhaglen waith yn parhau. |
| Cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth o'r maes a monitor eu heffaith | Mae rhaglen gynhwysfawr o godi ymwybyddiaeth wedi cymryd lle dros y flwyddyn gan gynnwys dosbarthu posteri, defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Mae dadansoddiad adrannol o staff sydd wedi darllen a derbyn y polisi Diogelu wedi ac mae hyrwyddo parhaus gan y rheolwyr dynodedig. Mae sesiwn atgoffa diogelu CSE hefyd wedi ei drefnu.<br><br>Mae rhaglen hyfforddiant wedi ei drefnu sydd yn cyfarch codi ymwybyddiaeth yn y meysydd gwrth radicaleiddio, CSE, Diogelu plant ac oedolion, recriwtio diogel a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) | Wedi ei gyflawni |
| Cynnal awdit blynyddol o | Mae Awdit dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth Diogelu wedi ei gwblhau gan yr uned archwilio | Wedi ei gyflawni'n |

| | | |
|---|---|---|
| gydymffurfiad gyda'r polisi | sydd wedi mesur lefelau ymwybyddiaeth ar draws grwpiau swyddi gwahanol ar draws y Cyngor. Mae'r Awdit eleni wedi dangos bod cynnydd wedi bod yn y lefelau o ymwybyddiaeth o'r Polisi a Gweithdrefnau Diogelu. | llawn |
| Monitro trefniadau cytundebau (staff a darpariaethau) o ran diogelu gan gryfhau gweithdrefnau lle bo angen | Mae archwiliad DBS wedi ei gwblhau gan yr uned archwilio yn ystod y flwyddyn. | Wedi ei gyflawni |
| Sicrhau bod Aelodau craffu yn ymwybodol o waith y Panel Strategol Diogelu | Mae trefniadau mewn lle i 'r Aelodau Craffu dderbyn adroddiad gan y Panel pob Chwe Mis. | Wedi ei gyflawni |
| **D2 - Diogelu Plant a Phobl Ifanc** | | |
| Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yng nghyd fynd a'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n aml asiantaeth. | Mae'r Cyngor yn parhau i gyfrannu i'r gwaith rhanbarthol o ran datblygu cynllun gweithredu CSE. Mae grŵp tasg a gorffen sydd wedi cael ei arwain gan yr heddlu wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar drefniadau ar draws y rhanbarth ac er mwyn adnabod meysydd y gellid cryfhau a gwella arnynt. Rydym yn hyderus bod ein trefniadau gweithredol yn y maes yng nghyd fynd a chanllawiau a gweithdrefnau ac yr ydym yn cyfrannu i'r cynllun gweithredu rhanbarthol. | Wedi ei gyflawni |
| Sicrhau fod y Cyngor, gymaint ag sydd yn bosib, yn deall y galw am wasanaethau, a thueddiadau CSE yng Ngwynedd | Mae'r adran plant wedi datblygu systemau i gasglu a dal data am achosion CSE yng Ngwynedd. | Wedi ei gyflawni. Rhaglen waith yn parhau |
| Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion. | Cynhaliwyd hyfforddiant gan arbenigwr yn y maes, Dr Helen Beckett ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i adolygu'r asesiad SERAF. Mae Uned Rheoleiddio erbyn hyn wedi cyflwyno gofyn trwyddedu i yrwyr tacsis i gwblhau hyfforddiant diogelu ac ymwybyddiaeth o CSE cyn iddynt dderbyn trwydded. Mae hyn yn cydymffurfio gyda'r gofynion y cynllun CSE rhanbarthol a'r gofyn yn lleol. | Wedi ei gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| Cydnabod bod y risg yn uwch i blant mewn gofal a gweithio gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol ar geisio gwarchod y plant mwyaf bregus. | Mae'r adran plant wedi datblygu eu sustemau gwybodaeth, golygir hyn bod yr adran mewn gwell lle i adnabod niferoedd plant mewn gofal sydd mewn perygl o CSE; y rhai sydd angen gwaith cychwynnol i arbed cynyddu risgiau a gwaith adferol i'w diogelu. | Rhaglen waith yn parhau |
| Cynnal yr awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion. | Trefn awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu mewn lle gan yr adran. Adroddiad blynyddol llywodraethwyr yn cael ei dderbyn gan yr adran gan bob ysgol. Mae'r adroddiadau yma yn bwydo mewn i gynllun busnes blynyddol diogelu'r adran addysg. Sawl awdit arall wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn. | Rhaglen waith yn parhau |
| Creu rhaglen hyfforddiant i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol. | 'Grŵp Gwella Ymarfer' wedi ei sefydlu hefyd sydd yn edrych ar ganfyddiadau'r awdits ac yn dylunio ffyrdd o wella ein hymarfer. | Wedi ei gyflawni |
| Gweithredu rhaglen waith yn unol ag argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella. | Rhaglen hyfforddiant mewn lle sydd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r awdits blynyddol. | Wedi ei gyflawni, rhaglen waith mewn lle. |
| **D3- Diogelu Oedolion Bregus** | | |
| Datblygu ystod eang o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed. | Mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Winterbourne a hefyd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hyn "Lle i Alw'n Gartref", mae angen datblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed. Mae rhaglen waith yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cyfeirio at y gwaith o ymgysylltu hefo defnyddwyr gwasanaeth a gwneud awdit o brofiadau. Byddwn yn gweithio hefo defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod cynlluniau diogelu cynaliadwy yn eu lle sydd yn addas i'w anghenion. Bydd y Swyddogion Sicrwydd Ansawdd yn ymgysylltu hefo preswylwyr, unigolion sydd yn derbyn gofal cartref a'u teuluoedd er mwyn cael adborth ac adnabod gwersi i'w dysgu | Rhaglen waith mewn lle ar gyfer 2017/18 |
| Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio | Yn ogystal â'r uchod, mae angen adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion. Mae defnydd helaeth o | Rhaglen waith mewn lle ar |

| | | |
|---|---|---|
| ymateb i unrhyw ddiffygion. | wasanaeth Adfocatiaeth wrth wneud y gwaith DoLS ond mae angen sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei gynnig i unigolion sydd o dan y drefn Diogelu ac yn derbyn Gwasanaethau yn y maes Oedolion. | gyfer 2017/18 |
| Darparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus. | Mae’r Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion yn grŵp Corfforaethol sydd yn cyfarfod yn chwarterol. Mae’r Panel yn trafod materion Diogelu a sut mae modd i'r Adran gymryd cyfrifoldeb am wrando ar lais oedolion bregus. Bydd y gwaith o adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn dechrau ym mis Mai.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod hefo swyddog AGGCC gychwyn mis Mawrth 2017 ac wrth gydnabod bod gwaith i’w wneud, a bod her o’n blaenau, cafodd y cynlluniau ar gyfer y tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd eu disgrifio fel newidiadau ‘cyffrous’. Mae’r adborth yma yn galonogol iawn ar ddechrau cyfnod o newid. | Wedi ei gyflawni. |

## 3. Archwiliadau Allanol a’u derbyniwyd yn ystod y cyfnod

3.1 Adolygiad Lle i Alw’n Gartref (Comisiynydd Pobl Hyn)

Mae’r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi yn ystod y flwyddyn wedi ymateb i argymhellion adroddiad y Comisiynydd Pobl Hyn ‘Lle i Alw’n Gartref’. Mae ein hymatebion yn dangos ein bod ar y trywydd cywir ond, fel pob awdurdod arall, mae dal gwaith i wneud, mae angen datblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed. Mae rhaglen waith yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn cyfeirio at y gwaith o ymgysylltu hefo defnyddwyr gwasanaeth a gwneud awdit o brofiadau. Bydd yr uned yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod cynlluniau diogelu cynaliadwy yn eu lle sydd yn addas i’w anghenion. Bydd swyddogion Sicrwydd Ansawdd yn ymgysylltu hefo preswylwyr, unigolion sydd yn derbyn gofal cartref a’u teuluoedd er mwyn cael adborth ac adnabod gwersi i’w ddysgu.

3.2 Llythyr Blynyddol 2016/17 (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol)

Derbyniwyd y Cyngor Llythyr Blynyddol yr arolygaeth 2016/17ar y 13eg o Fehefin. Maent wedi rhoi sylw i’r maes diogelu. Mae’r arolygaeth yn adnabod y cynnydd sydd wedi ei wneud yn y maes diogelu oedolion ac yn y maes Anableddau Dysgu.

3.3 Llythyr Blynyddol 2015/16 (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol)

Byddwch yn ymwybodol yn Llythyr Blynyddol yr Arolygaeth blwyddyn 2015 cyfeiriwyd at yr angen i wella trefniadau diogelu bregus gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi ei adnabod ac wedi ymgorffori yn y cynllun strategol. Mae'r Adran Oedolion wedi rhoi trefniadau cadarn yn eu lle yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau arbenigedd a dealltwriaeth lawn o holl faterion sy'n ymwneud a diogelu. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fod yn rhagweithiol er mwyn ymateb yn briodol ac effeithiol i bryderon sy'n codi. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod mewn achosion sy'n ymwneud a materion diogelu yn ddiweddar, ond mae'n amlwg o drafodaethau gydag Awdurdodau eraill o fewn y rhanbarth ein bod mewn sefyllfa gyffelyb. Bydd yr uned wedi ei sefydlu'n llawn erbyn Mehefin 2017 ac mae rhaglen waith cynhwysfawr wedi cael ei datblygu.

3.4 Adroddiad Arolygaeth ar Wasanaeth Oedolion ag Anableddau Dysgu

Ym Mehefin 2016 cyhoeddwyd adroddiad arolygaeth ar wasanaethau oedolion ac anableddau dysgu. Ers rhyddhau'r adroddiad, mae'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi gwneud cynnydd sylweddol i foderneiddio'r gwasanaeth yn dilyn yr archwiliad ac wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae rhaglen gyffrous mewn lle ar gyfer sicrhau darpariaeth gynaliadwy i oedolion gydag anableddau dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwasanaeth newydd wedi ei ddylunio i helpu dinasyddion i ganolbwyntio ar eu cryfderau ac ar yr hyn y medrant ei gyflawni yn ddiogel ac ar ben eu hunain. Mae'r Cyngor wedi sicrhau cyllid Gronfa Ganolradd Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r model newydd ar ddarparu gwasanaeth fydd yn elwa oedolion gydag anableddau dysgu wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn y lle cyntaf.

## 4. Adolygiadau Ymarfer

4.1 Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'gryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dal sylw. Mae'r adroddiadau yn canolbwyntio ar wella ymarfer. Yn ystod y cyfnod mae Gwynedd wedi cael 2 achos adolygu ymarfer estynedig (ECPR). Mae'r ddau adolygiad nawr wedi dod i ben. Mi fydd adroddiadau llawn ar gael ar wefan y Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn fuan. Mae Cynllun Gweithredu llawn ar gyfer y ddau adolygiad wedi eu llunio yn dilyn argymhellion ac mae cyrhaeddiad yn erbyn y cynlluniau gweithredu yn cael ei adolygu gan y Bwrdd Rhanbarthol, yn ogystal mae'r Tîm Statudol yn monitro'r cyrhaeddiad er mwyn sicrhau bod adlewyrchiad a dysgu o'r digwyddiad ac adolygu ymarfer lle bod angen. Yn ogystal bydd y Panel yn edrych ar unrhyw wersi sydd yn deillio o'r adolygiadau ymarfer a sicrhau bod gweithredu priodol yn digwydd ar y gwersi.

4.2 Yn yr un modd Cynhelir Adolygiadau Ymarfer Diogelu Oedolion (APR) ar ran Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Maent hefyd yn ddull sy'n caniatáu pob asiantaeth partner i nodi'r gwersi y gellir eu dysgu o'r achosion Diogelu Oedolion arbennig o gymhleth neu anodd a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn. Mae Gwynedd gydag un achos APR sydd ar fin cau (APR Gwynedd 1). Bydd adroddiad llawn yr achos yma ar wefan y Bwrdd Rhanbarthol yn fuan ac yn unol ag adolygiadau plant bydd y Panel yn edrych ar unrhyw wersi sydd yn deillio o'r adolygiadau ymarfer a sicrhau bod gweithredu priodol yn digwydd ar y gwersi.

## 5. Y bwriad wrth edrych ymlaen – 2017 ymlaen

5.1 Fel sydd wedi ei nodi ar gychwyn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu ac uchafu'r maes Diogelu yn y Cynllun Strategol trwy sicrhau ei fod yn derbyn ystyriaeth drawsadrannol a sylw cyngor cyfan - yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel cyfrifoldeb rhai adrannau yn unig. Mae' prosiectau Diogelu yn parhau i dderbyn sylw yn y Cynllun Strategol 2017/18.

5.2 **D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu**

5.3 Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu, a bod gennym weithdrefnau effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd. Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth gweithwyr ac aelodau'r Cyngor o'r agenda hwn yn waith parhaus i sicrhau fod pawb yn ymwybodol fod diogelu plant ac oedolion bregus o gamdriniaeth yn gyfrifoldeb i ni gyd.

5.4 Erbyn diwedd Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau i gyfarch newidiadau deddfwriaethol
- Monitro effaith ein gweithdrefnau drwy'r arolwg ymwybyddiaeth flynyddol a'r archwiliad cytundebau, gan weithredu ar unrhyw argymhellion a pharhau i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant yn y maes diogelu

**5.5 D2 Diogelu plant a phobl ifanc**

5.6 Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu i blant a phobl ifanc. Byddwn yn sicrhau fod gweithdrefnau a pholisïau diogelu yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio o fewn y maes Addysg ac ymateb i'r risg Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) ar draws Gogledd Cymru.

5.7 Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi cryfhau ymhellach y gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg drwy:

- Cynnal awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion
- Parhau i wella ymarfer, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Parhau i gadw'r rhaglen hyfforddiant yn gyfredol i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol
- Weithredu rhaglen waith yn unol â chasgliadau ac argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella.

5.8 Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi adolygu trefniadau'r Cyngor o ran ymateb i'r risg Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) gan:

- Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yng nghyd fynd â'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n amlasiantaethol
- Parhau i gynnal trefniadau casglu gwybodaeth am niferoedd achosion, lefelau risg a chydymffurfiaeth a phrosesau diogelu yn y maes er mwyn bod yn ymwybodol o natur y galw yn y maes. Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion

- Sefydlu panel gweithredol amlasiantaethol i edrych ar achosion unigol ym maes CSE er mwyn cytuno ar weithrediadau sydd angen digwydd i ddiogelu plant a phobl ifanc unigol. Bydd y panel yma yn ychwanegu gwerth i'r ymyrraeth dydd i ddydd rheng flaen

**5.9 D3 Diogelu oedolion bregus**

5.10 Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.

5.11 Erbyn diwedd Mawrth 2018, fe fydd y prosiect yn gweithredu'r rhaglen waith uchod, a thrwy hynny wedi sicrhau ein bod yn:

- Datblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed
- Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion
- Darparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus

## 6. Panel Strategol Diogelu i'r Dyfodol

6.1 Byddwch yn ymwybodol bod bwriad i ehangu maes gwaith chyfrifoldeb y Panel Diogelu Strategol i gynnwys dyletswyddau gwrth derfysgaeth ac atal radicaleiddio, gofynion caethwasiaeth fodern, gofynion trais yn y Cartref a Gofynion Cynhwysiad Cymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y Panel gyda throsolwg o'r agenda diogelu ehangach sydd yn bodoli ac yn gwneud y defnydd gorau o'r grŵp gweithredol diogelu a'r swyddogion sydd yn bencampwyr yn y meysydd uchod. Er nad yw'r meysydd yma wedi derbyn sylw'r Panel yn ystod y flwyddyn, Mae'r wybodaeth sydd i ddilyn yn ceisio rhoi trosolwg o'r meysydd dan sylw.

## 6.2 CONTEST/PREVENT

6.3 Mae'r Ddeddf Llywodraeth y DU Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau fel rhan o'u swyddogaeth, i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Mae strategaeth PREVENT llywodraeth y DU , un o bedwar llinyn 'CONTEST', Strategaeth ehangach gwrthderfysgaeth y swyddfa Gartref, ac yn ymwneud yn bennaf a rhwystro pobl rhag dod yn derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgwyr ac eithafiaeth dreisgar. Mae strategaeth PREVENT yn benodol yn:

- Ymateb i'r her ideolegol terfysgaeth ar fygythiad rydym yn ei wynebu gan y rheini sy'n ei hybu.

- Atal unigolion rhag cael eu denu at derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol.

- Gweithio gyda sectorau a sefydliadau lle bydd perygl o radicaleiddio y mae angen rhoi sylw iddo.

6.4 Mae Bwrdd 'CONTEST' Rhanbarthol sydd yn fwrdd amlasiantaethol mewn lle gyda chynrychiolaeth gan Gyngor Gwynedd. Morwenna Edwards, Cyfarwyddwr Statudol sydd yn

cynrychioli Gwynedd ar y Bwrdd ‘CONTEST’. Mae Partneriaeth Diogelu Gymunedol Gwynedd a Môn gyda’r cyfrifoldeb i oruchwylio rhaglenni ‘PREVENT’ o fewn y gwasanaethau'r bartneriaeth.

6.5 Mae’r strategaeth PREVENT yn cynnwys datblygu ystod eang o weithgareddau gan gynnwys cymorth ymarferol, cyngor a chefnogaeth ac ystod o ddigwyddiadau a rhaglenni cefnogi unigolion a sefydliadau i wrthbwyso ideolegau maleisus. Yn ystod y flwyddyn 2016/17 mae rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr wedi digwydd o fewn ysgolion Gwynedd gyda rhan fwyaf o weithwyr ein hysgolion wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant (lefel 1 neu 2) sydd yn cynnwys modiwlau ar radicaleiddio.

6.6 Bydd rhaglen waith PREVENT 2017/18 yn canolbwyntio ar redeg yr hyfforddiant yma ar gyfer gweithwyr y Cyngor ar bob lefel. Mae modiwlau e-ddysgu wedi eu paratoi gan y Swyddfa Gartref ac wedi eu rhannu gyda’ Adran Dysgu a Datblygu ac ar gael i staff y Cyngor. Bydd angen sicrhau bod y rhaglenni dysgu yma ar gael i weithlu’r Cyngor.

6.7 Yn ogystal mae hi’n ofyn statudol inni fod yn cynnal paneli ‘CHANNEL’ sydd yn gyfarfodydd aml asiantaeth sydd yn rhoi ffocws i gefnogi pobl yn gynnar sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd mewn peryg o gael eu denu at derfysgaeth. Mae’r panel yn gweithio mewn dull aml asiantaethol i adnabod unigolion, asesu natur y peryg a datblygu ffyrdd effeithiol a priodol i gefnogi’r unigolion. Yng Ngwynedd, mae trefniadau Paneli ‘CHANNEL’ mewn lle ac mae’n galonogol adrodd bod dim un cyfeiriad wedi cyrraedd yr angen am ymyrraeth ‘CHANNEL’.

## 6.8 Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a Thrais Rhywiol

6.9 Daeth y ddeddf Trais yn erbyn Menywod, cam drin domestig a thrais rhywiol (Cymru) i rym yn 2015. Nod y ddeddf yw gwella ymateb y sector Gyhoeddus yng Nghymru i gam drin a thrais o’r fath. Yn benodol mae’r ddeddf yn gosod cyfrifoldebau ar Gynghorau i sefydlu strwythur gweithredu Rhanbarthol. I’r perwyl hyn mae Bwrdd Strategol Rhanbarthol wedi ei sefydlu gyda Morwenna Edwards, Cyfarwyddwr Statudol yn cynrychioli’r Cyngor ar y Bwrdd. Mae’r Bwrdd wedi penodi ‘Cynghorydd Rhanbarthol’, fel sydd yn ofynnol yn y ddeddf ac maent yn awr yn gweithio ar raglen trawsffurfio ranbarthol fydd yn golygu bod swyddogion lleol yn symud i fod yn rhan o dîm rhanbarthol.

6.10 Un o brif ddyletswyddau yn sgil y ddeddf yw’r fframwaith hyfforddi cenedlaethol. Mae’r Fframwaith yn cynnwys chwe grŵp hyfforddi. Bydd holl broffesiynau’r gwasanaethau cyhoeddus yn perthyn i un o’r grwpiau hyn ac mae’n ofynnol bod pob aelod o weithlu’r Cyngor yn derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gynghorau fod wedi cwblhau 50% o’r hyfforddiant erbyn diwedd y flwyddyn. Ni lwyddwyd i gyrraedd hwn am amryw o resymau gan gynnwys nad oedd safon iaith Gymraeg y deunyddiau dysgu yn ddigonol yn ogystal â materion technegol. Mae’r Cyngor yng nghyd weithio gyda Llywodraeth Cymru i geisio goresgyn y rhwystrau yma. Mi fydd lledaenu’r hyfforddiant yn flaenoriaeth ar gyfer 2018/18

## 6.11 Caethwasiaeth Fodern

6.12 Mae'r agenda Caethwasiaeth Fodern eto yn faes gwaith sydd yn derbyn proffil llawer iawn uwch. Mae grŵp rhanbarthol yn arwain ar y maes yma ac mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu i'r Grŵp Gogledd Cymru yma. Yn ystod y flwyddyn mae Uwch Reolwr Tai, Arwel Owen wedi ei benodi fel Pwynt Cyswllt Unigol i'r Cyngor (SPOC). Mae'r Bwrdd Rhanbarthol yn ei ddyddiau cynnar ac mae hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer aelodau'r grŵp er mwyn deall yn well sut i adnabod ac ymateb i'r broblem. Mae pwyslais yr ymyrraeth ar gyd weithio a blaenoriaeth y 2017/18 fydd i ymestyn dealltwriaeth grwpiau o staff penodol o fewn y Cyngor fydd yn debygol o ddod ar draws caethwasiaeth fodern, yn ogystal, mae modiwlau e-ddysgu ar gael ar gyfer hyfforddiant i'r holl weithlu.

## 6.13 Cynhwysiad Cymdeithasol

6.14 Mi fydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau Cynllun Cynhwysiad Cymunedol newydd yn y misoedd nesaf. Mae'n debyg bydd themâu cyfredol Cynhwysiad Cymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyda'r agenda 'PREVENT' a newid demograffeg yn cael mwy o sylw. Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu (PCC) wedi cyhoeddi eu cynllun 2017-18 sydd yn cynnwys eu blaenoriaethau Cymhwysiad Cymunedol sef, Caethwasiaeth Modern, Cymunedau Diogel a 'PREVENT'. Bydd y Bwrdd Diogelu Cymunedol Gogledd Cymru yn cysidro a phenderfynu ar eu blaenoriaethau ar gyfer 2017/18.

## 7. Casgliad

7.1 Cyflwynir yr adroddiad yma er mwyn rhoi blas ar weithgareddau sy'n digwydd ym maes diogelu o fewn y Cyngor. Mae pwyslais y gwaith ar y ffaith mai cyfrifoldeb corfforaethol yw diogelu ac nid ar gyfer yr Adran Addysg ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig.

7.2 Mae'r hyn gyflawnwyd y llynedd o ran y rhaglen waith yn amlygu gweithgarwch y Panel Strategol a'r Grŵp Gweithredol o ran y gwaith caled sydd wedi ei wneud o ran parhau i wella ein trefniadau diogelu ac amddiffyn yn gorfforaethol. Gyda'r archwiliadau allanol ac adolygiadau ymarfer yn cynnig adborth positif ar y cyfan. Maent hefyd yn amlygu'r elfennau y gellid gwella. Yn ogystal mae'r achosion penodol sydd wedi codi yn cynnig cyfleoedd i ddysgu i wella ac i adolygu ein trefniadau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **5ed Hydref 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r cydbwysedd gwleidyddol** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Addasu'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir isod.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 15fed o Fehefin, 2017 fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 41 |
| Annibynnol | 24 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Llafur Rhyddfrydol | 2 |
| Aelodau Unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

1.2 Ers hynny, mae rhai newidiadau wedi digwydd sy'n golygu fod angen adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

Mae'r ddau aelod unigol wedi ymuno i ffurfio Grwp Llais Annibynnol Gwynedd.

Mae'r Cynghorydd Louise Hughes wedi ymuno â Grwp Llais Annibynnol Gwynedd (o'r Grwp Annibynnol).

1.3 I grynhoi felly, mae'r newididau uchod yn golygu fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 41 |
| Annibynnol | 23 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Llafur Rhyddfrydol | 2 |
| Llais Annibynnol Gwynedd | 3 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

Disgwylir i'r Cyngor weithredu yn unol â'r rheolau hyn cyn belled a bo hynny'n ymarferol bosib.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

**3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU**

3.1 Golyga fod Grwp Llais Annibynnol Gwynedd yn ennill sedd ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar draul Grwp Annibynnol.

3.2 Hefyd, mae Grwp Llais Annibynnol Gwynedd yn ennill sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ar draul y Grwp Annibynnol. (Gweler Atodiad A)

3.3 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r cydbwysedd gwleidyddol

**ATODIAD – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Llais Annibynnol Gwynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 2 | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 6 | 1 | 0 | 1 | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Llais Annibynnol Gwynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 1 | 1 | 0 | 15 |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 5 | 2 | 0 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **47** | **13** | **4** | **6** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Llais Annibynnol Gwynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | 1 | 0 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | 0 | 1 | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | 8 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **57** | **15** | **5** | **7** | **187** |

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Cyngor Llawn |
| Dyddiad | 5ed o Hydref 2017 |
| Teitl | Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor |
| Awdur | Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Aelod | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Pwrpas | Cyflwyno'r achos fusnes dros sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor er mwyn darparu cyfleusterau hamdden o fewn y Sir |

**1 Y penderfyniad a geisir**

1.1 Cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer sefydlu Cwmni a Reolir gan Gyngor Gwynedd i ymgymryd â'r ddarpariaeth cyfleusterau hamdden.

1.2 Awdurdodi sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan Gyngor Gwynedd yn unol 'r ffurf sy'n cael ei amlinellu o fewn yr achos fusnes er darparu cyfleusterau hamdden Gwynedd.

**2 Cyflwyniad**

2.1 Mae'r adroddiad sydd gerbron heddiw yn amlinellu'r sail dros argymell sefydlu Cwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn y sir.

2.2 Ym mis Rhagfyr 2014 bu'r Cyngor Llawn gymeradwyo cyfres o dargedau arbedion gan gynnwys gwerth £1.05m o arbedion i'w wireddu erbyn 2018/19 drwy newidiadau o fewn y gwasanaeth hamdden. Mae'r gwasanaeth wedi gwireddu oddeutu £800k ac yn hyderus o gyflawni £100k pellach ond mae darganfod y £150k sy'n weddill heb effeithio ar lefelau gwasanaeth yn profi'n anodd.

2.3 Mae'r opsiwn yma'n cynnig cyfle i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd heb gael effaith ar bobl Gwynedd. Pe na fyddem yn gwneud hyn, ac o gofio'r sefyllfa ariannol ddifrifol sydd o'm blaenau, mae'n debygol y bydd rhaid edrych i resymoli nifer o ganolfannau hamdden, neu gynyddu ffioedd yn sylweddol.

2.4 Ar yr 26ain o Fedi bu'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi craffu'r achos fusnes a byddent yn cyflwyno eu sylwadau i'r Cabinet ar y 3ydd o Hydref.

2.5 Bydd argymhelliad y Cabinet yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor Llawn.

**3 Cefndir**

3.1 Ar y 1af o Dachwedd 2016 bu'r Cabinet gomisiynu darn o waith i edrych ar fodelau busnes posib ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden. Nod y comisiwn oedd darganfod arbedion sylweddol wrth gynnig yr un safon o wasanaeth neu well i drigolion.

3.2 Bu'r Pwyllgor Craffu Cymunedau dderbyn blas o'r opsiynau oedd yn cael eu hystyried ar yr 24ain o Ionawr 2017 ac fe nodwyd y byddent yn croesawu gweld yr achos fusnes yn ddiweddarach ym Medi 2017.

3.3 Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi ei wneud i adnabod yr opsiynau posib ac asesu'r manteision ac anfanteision o'u gweithredu. Edrychwyd ar yr opsiynau canlynol ar lefel uchel:

3.3.1 Gwneud Dim

3.3.2 Parhau i ddarparu gwasanaethau ein hunain a darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd a/neu incwm

3.3.3 Sefydlu elusen o'r newydd

3.3.4 Sefydlu Cwmni buddiannau cymdeithasol

3.3.5 Sefydlu cymdeithas buddiannau cymdeithasol ('Staff Mutual')

3.3.6 Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor

3.3.7 Sefydlu Cwmni masnachu awdurdod lleol

3.3.8 Proses gaffael agored

3.3.9 Trosglwyddo'r gwasanaeth i gorff arall

3.4 Cafwyd cyngor cyfreithiol ar y modelau a sail y risgiau gweithredol cysylltiedig fe edrychwyd ar 3 model posib mewn mwy o fanylder, sef Gwneud Dim, Proses Gaffael a Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor. Erbyn hyn mae swyddogion o'r farn fod ganddynt wybodaeth ddigonol ynglŷn â'r oblygiadau a risgiau i fedru argymell model i'r dyfodol.

3.5 Pwrpas yr adroddiad yma yw amlinellu'r seiliau dros argymell sefydlu Cwmni newydd sydd wedi ei reoli gan y Cyngor a drwy hynny sicrhau parhad y gwasanaeth presennol.

3.6 Bydd gweithredu'r model arfaethedig yn caniatáu'r i'r gwasanaeth gyflawni'r targedau arbedion y bu'r Cyngor ei osod arno nôl yn Rhagfyr 2014 yn ogystal â chyfrannu arbedion pellach i'r Strategaeth Ariannol.


**3 Y sefyllfa bresennol**

4.1 Mae'r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y Sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.

4.2 Mae'r ddarpariaeth bresennol yn golygu fod 27% o boblogaeth Gwynedd yn byw o fewn milltir i Ganolfan Hamdden a bod dim anheddau yn byw mwy nag 18 milltir.

4.3 Mae’r aelodaeth bresennol gyfystyr a thua 14% o boblogaeth Gwynedd.


Pellter o Ganolfan Hamdden Cyngor Gwynedd



4.4 O’r 17,000 o aelodau mae 55.4% o’r aelodau yn blant 0 i 16oed, 27% yn Oedolion 24 i 60 oed a 9.3% dros 65oed.

4.5 Mae gwariant gros y gwasanaeth yn bron i £5m y flwyddyn (eithrio costau canolog) ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae’r Cyngor felly’n cymorthdalu bron i £1.9m o’r gwasanaeth.

4.6 Nol yn Rhagfyr 2014 bu’r Cyngor ofyn i’r gwasanaeth arbed oddeutu £1.05m o arbedion effeithlonrwydd rhwng 2015 a 2018. Fel y blynyddoedd cynt mae’r gwasanaeth wedi ymateb gan geisio sicrhau'r effaith lleiaf posib ar bobl Gwynedd drwy gyflwyno mesurau effeithlonrwydd i leihau costau a chynyddu incwm drwy ddenu aelodau newydd.




4.7 Hyd yma mae’r gwasanaeth wedi adnabod £800k o’r targed £1.05m ond mae darganfod gweddill y swm o fewn yr amserlen a’r model darparu presennol yn profi’n anodd. Os cymeradwyir y cynllun arfaethedig yma bydd y gwasanaeth wedi cyflawni’r targed o £1.05m a bydd arbedion dros ben (oddeutu £400k) ar gael i ofynion y Strategaeth Ariannol bresennol

**5 Pam newid?**

5.1 Mae’n bwysig cydnabod nad yw’r achos dros newid yn adlewyrchiad o berfformiad y gwasanaeth, yn hytrach mae’n adlewyrchu’r pwysau ariannol digynsail ar lywodraeth leol ers sawl blwyddyn bellach.

5.2 Mae’r achos dros newid ein model darparu yn seiliedig ar y casgliad na fedr y gwasanaeth ddarganfod yr arbedion angenrheidiol heb orfod cau nifer o ganolfannau hamdden neu gynyddu ffioedd aelodaeth a mynediad ar raddfa sylweddol. Mae gwaith wedi ei wneud felly i asesu os oes model amgen dichonadwy a derbyniol fydda’n gallu cyflawni’r arbedion gan gynnig yr un safon o wasanaeth neu well.

5.3 Bydd aelodau yn ymwybodol fod ein cynllunio ariannol yn rhagweld y bydd y pwysau ariannol yma’n parhau dros y 3 blynedd nesaf gyda hyd yn oed y senario mwyaf optimistaidd yn nodi’r angen i’r Cyngor ddarganfod £11.8m erbyn 2020/21, a’r senario gwaethaf yn nodi £24m. O gofio fod y Cyngor eisoes wedi gwireddu £31m yn y 4 mlynedd diwethaf, gan gynnwys gwerth £5m o

doriadau i wasanaethau, mae'n debyg ei fod yn deg dweud y bydd darganfod mwy o arbedion heb gael effaith ar bobl Gwynedd am fod yn llawer anoddach tro hyn.

5.4 Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r gwasanaeth hamdden wedi arbed 33% ar ei wariant net drwy gynyddu incwm, drwy ddenu aelodau newydd a chyflawni cyfres o fesurau effeithlonrwydd i leihau ei wariant.

5.5 Rhaid cadw mewn cof hefyd fod ein stad o gyfleusterau hamdden yn heneiddio; mae rhai o'r adeiladau yn sefyll ers y chwech degau. Mae costau cynnal a chadw yn naturiol am gynyddu ar adeiladau o'r fath ond yn allweddol hefyd yw'r angen i fuddsoddi er mwyn sicrhau fod y cynnig yn parhau yn ddeniadol i drigolion. Os na fyddwn yn cadw fyny gyda newidiadau ac anghenion newydd defnyddwyr mae yna wir beryg na fyddwn yn cyflawni pwrpas y gwasanaeth o fod yn cefnogi ac ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach.

5.6 Yn hyn o beth mae'r gwaith yma'n alinio'n agos gyda'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni geisio adnabod a gweithredu'r model darparu gorau ar gyfer 'sicrhau gwasanaeth modern, addas i bwrpas, cynhwysol a cynaliadwy fydd yn ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach'.

5.7 Yn wyneb yr hinsawdd ariannol a'r ansicrwydd mae hynny'n ei greu yng nghyswllt cynaliadwyedd gwasanaethau mae patrwm cynyddol yn y sector gyhoeddus lle mae awdurdodau yn edrych os oes modelau mwy gwydn o ddarparu gwasanaethau. Un o'r prif atyniadau yng nghyswllt gwasanaethau hamdden yw bod rhai cyrff yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi sydd yn ei dro yn rhyddhau arbedion a/neu gyllid i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

5.8 Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn talu dros £0.5m y flwyddyn mewn trethi annomestig felly fe fydda trosglwyddo'r ddarpariaeth i gorff sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad o'r trethi hynny yn arwain at arbediad sylweddol yng nghost y gwasanaeth. Yn allweddol hefyd wrth gwrs yw'r damcaniaeth na fydda arbedion o'r fath yn amharu ar lefel a safon y gwasanaeth i drigolion.

5.9 Goblygiadau hynny yw y bydda'r Cyngor yn comisiynu corff arall i ddarparu'r gwasanaeth ar ei ran. Mae'r achos fusnes sydd gerbron wedi asesu union oblygiadau'r gwahanol fathau o fodelau darparu ac wedi eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

1) Gwasanaeth yr un peth neu well am gost is o leiaf £500k erbyn 2019
2) Mynediad haws i ddulliau gwahanol o fuddsoddi
3) Gallu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Ngwynedd
4) Defnydd mwy effeithlon o gymhorthdal y Cyngor yn erbyn amcanion gwario

5) Hyblygrwydd i addasu i gwrdd â heriau newydd

6) Uchafu cyfraniad tuag at amcanion strategol y Cyngor.

**6 Crynodeb o'r gwerthusiad**

6.1 Mae atodiadau'r achos fusnes yn manylu ar yr opsiynau gafodd ystyriaeth fel rhan o'r achos fusnes.

6.2 Yn dilyn gwaith cychwynnol daethpwyd i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar ddatblygu a gwirio'r achos dros sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor ac i feincnodi'r opsiwn yno yn erbyn yr opsiwn o barhau gyda'r drefn fewnol neu opsiwn o gaffael darparwr allanol ar gyfer y gwasanaeth ("allanoli").

6.3 Seliwyd y casgliad cychwynnol yma ar y sail mai rhain oedd yr opsiynau oedd yn cwrdd â'r meini prawf a bod swyddogion felly yn canolbwyntio eu hamser ar yr opsiynau oedd fwyaf tebygol o gyflawni'r amcanion.

6.4 Nid yw mor ddu a gwyn i ddweud y bydd un model yn cynnig gwasanaeth gwell neu waeth i drigolion ond mae'n deg dweud y bydd rhai modelau yn gweddu'n well na'i gilydd o ran blaenoriaethau, polisïau, strategaethau ac egwyddorion y Cyngor. Enghraifft syml o hynny yw'r opsiwn o allanoli i'r sector breifat a'r tebygolrwydd y bydda ethos masnachol ac ariannol yn gallu dod ar draul rai o amcanion cymdeithasol. Er enghraifft, fe fydda yna ddisgwyliad naturiol, ar ryw bwynt, i unrhyw weddill ariannol gael ei ddyrannu fel elw preifat yn hytrach nag i'r gymdeithas leol.

6.5 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwerthusiad opsiynau:

| MEINI PRAWF | MODELAU POSIB | | |
|---|---|---|---|
| | OPSIWN 1: MEWNOL | OPSIWN 5: PROSES GAFFAEL AGORED | OPSIWN 6: CWMNI WEDI EI REOLI |
| Gwasanaeth yr un peth neu well am gost is | [Ambr] | [Gwyrdd] | [Gwyrdd] |
| Mynediad haws i ddulliau gwahanol o fuddsoddi | [Coch] | [Gwyrdd] | [Coch] |
| Gallu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Ngwynedd | [Gwyrdd] | [Ambr] | [Gwyrdd] |
| Defnydd mwy effeithlon o gymhorthdal y Cyngor yn erbyn amcanion gwario | [Ambr] | [Gwyrdd] | [Gwyrdd] |
| Hyblygrwydd i addasu i gwrdd â heriau newydd | [Ambr] | [Gwyrdd] | [Ambr] |
| Uchafu cyfraniad tuag at amcanion strategol y Cyngor. | [Gwyrdd] | [Ambr] | [Ambr] |

**ALLWEDD:** GWYRDD = CYFLAWNI, AMBR = CYFLAWNI'N RHANNOL, COCH = DDIM YN CYFLAWNI

6.6 Mae'r gwerthusiad opsiynau o fewn yr achos busnes yn dod i'r casgliad na fedr y gwasanaeth gyflawni'r arbedion angenrheidiol wrth aros yn fewnol (Opsiwn 1) heb edrych i gau rhai canolfannau neu gynyddu ffioedd am y gwasanaeth ar raddfa sylweddol (~20% drosodd) fydda'n gallu amharu ar ddefnydd.

6.7 Yr opsiwn o allanoli (Opsiwn 5) sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r arbedion mwyaf, a hynny ar y rhagdybiaeth fod yna ddiddordeb yn y farchnad i ddarparu yng Ngwynedd. Fe fydda mwyafrif o'r arbedion yn debygol o darddu o eithriadau trethi ond gellir disgwyl ymgyrchoedd mwy caled i gynyddu incwm a lleihau gwariant hefyd.

6.8 Fodd bynnag, yr opsiwn o allanoli sy'n golygu'r newid mwyaf ac fe fydda rheolaeth y Cyngor yn sylweddol llai o gymharu â'r opsiynau eraill. Er ein bod yn rhagfarnu'r darparwyr posib i raddau mae yna fwy o risg diwylliannol ynghlwm a'r cyfeiriad yma, yn bennaf yng nghyswllt yr iaith Gymraeg ac i rai o bolisïau ac egwyddorion eraill y Cyngor.

6.9 O'r opsiynau i gyd felly sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor (Opsiwn 6) yw'r newid lleiaf. Mae'r opsiwn yma'n cynnig cyfle i gyflawni arbedion trethiannol oddeutu £585k yn y flwyddyn gyntaf o weithredu wrth gadw hunaniaeth, diwylliant ac egwyddorion craidd presennol.

6.10 Y Cyngor fyddai berchen y Cwmni cyngor a rheolir y Cwmni gan Fwrdd Rheoli wedi ei benodi gan y Cyngor; yn y tymor byr ni ddylai defnyddwyr a thrigolion weld gwahaniaeth yn y ddarpariaeth ond, i'r dyfodol, y nod naturiol fydda i ddatblygu ac i wella'r gwasanaeth yn barhaus.

6.11 Amcangyfrifir y byddai modd cyflawni arbedion net blynyddol o £585k ond fod angen clustnodi rhwng £170k hyd at £240k unwaith ac am byth er mwyn sefydlu'r Cwmni dros gyfnod o 9 mis.

6.12 Gan gymryd na fyddai'r Cyngor yn dymuno cau canolfannau hamdden a thorri'r gwasanaeth nid yw aros yn fewnol yn opsiwn hyfyw i'r dyfodol. O'r modelau amgen sydd ar gael yr opsiwn o greu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor sy'n taro balans orau o ran cyflawni'r arbedion angenrheidiol a chadw hunaniaeth bresennol y gwasanaeth.

## 7 Amlinelliad o sut byddai Cwmni wedi ei reoli yn edrych a gweithio

### 7.1 Ffurf y Cwmni

7.1.1 Bwriedir i'r Cwmni fod yn Gwmni cyfyngedig drwy warant gyda'r Cyngor yn berchennog llawn arno (h.y. yr unig gyfranddaliwr).

7.1.2 Bydd y Cyngor yn creu cyfansoddiad y Cwmni fydd yn seiliedig ar bwrpas dyngarol ac nid ar gyfer elw.

7.1.3 Bydd y Cyngor hefyd yn penodi Bwrdd o Gyfarwyddwyr (ar sail wirfoddol) fydd yn gyfrifol am gyflawni oddi fewn i gyfansoddiad y Cwmni. Bydd 5 i 7 o gyfarwyddwyr ar y bwrdd; sy'n debygol o fod yn gyfuniad o aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor.

7.1.4 Mae modd ychwanegu haenau llywodraethu oddi fewn y Cwmni syn gallu cynnwys Bwrdd cynghorol neu fwrdd budd-ddeiliaid eraill er enghraifft.

7.1.5 Bydd y Bwrdd o Gyfarwyddwyr yn penodi a chyflogi Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Cwmni; y person yno fydd yn gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd o'r Cwmni.

**7.2 Rheolaeth y Cyngor dros y Cwmni**

7.2.1 Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaeth drwy gytundeb gwasanaeth fydd yn manylu ar yr union wasanaethau a deilliannau sydd angen i'r Cwmni yno ei gyflawni am ffi benodol (sef swm tebyg i'r gwariant net presennol llai'r arbedion sydd wedi'u hadnabod). Bydd y cytundeb yma yn cyfarch disgwyliadau'r Cyngor o safbwynt y gwasanaeth fydd yn cael ei gomisiynu ac yn manylu ar faterion megis:

i) Y taliad a wneir i'r Cwmni am ddarparu'r gwasanaeth
ii) Isafswm darpariaeth gwasanaeth
iii) Strwythur ffioedd
iv) Polisi Iaith
v) Lefel Perfformiad
vi) Gofynion Ansawdd

7.2.2 Bydd y Cyngor hefyd yn lesu y canolfannau hamdden i'r Cwmni ddarparu gwasanaethau. Bydd y les yno hefyd yn manylu ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cwmni yng nghyswllt defnydd yr adeiladau gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau neu eithriadau.

7.2.3 Yn unol â'r achos fusnes, y bwriad fyddai cytundebu ar sail 10 mlynedd. Bydd y cytundeb hwnnw yn cynnwys mecanwaith penodol ar gyfer delio ag unrhyw newidiadau, foed hynny yng nghyswllt newid mewn gwasanaeth neu werth y cytundeb er enghraifft, ac wrth gwrs y gallu i derfynu'r cytundeb ynghynt.

7.2.4 Y Cyngor fydd yn ffurfio cyfansoddiad y Cwmni sy'n manylu ar y rheolau ar gyfer rhedeg y Cwmni. Bydd rheolaeth weithredol y Cwmni yn nwylo'r cyfarwyddwyr fydd â dyletswyddau at y Cwmni yn unol â Deddf Cwmnïau. Fodd bynnag fel y nodir uchod yn ogystal â'r rôl cyfranddaliwr bydd y cytundeb darparu hefyd yn sicrhau fod gan y Cyngor reolaeth dros y gwasanaeth fydd yn cael ei ddarparu.

7.2.5 Bydd gofyn i'r Cwmni hefyd adrodd ar ei berfformiad i'r Cyngor, yn debyg iawn i adran o'r Cyngor. Yn ogystal bydd y Cyngor yn cymeradwyo cynllun busnes blynyddol y Cwmni, sy'n manylu ar weithgareddau, datblygiadau a deilliannau'r flwyddyn neu flynyddoedd i ddod.

7.2.6 Ar ei eithaf fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau gyda rheolaeth derfynol gan y gellir penodi neu gael gwared â'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr a/neu newid cyfansoddiad y Cwmni os oes angen.

**7.3 Effaith ar wasanaethau a defnyddwyr**

7.3.1 Bydd y Cyngor yn gofyn i'r Cwmni ddarparu'r un gwasanaeth ac sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd oni bai fod y Cwmni yn gallu adnabod unrhyw welliannau i'r ddarpariaeth bresennol.

7.3.2 Yn ei hanfod ni ddylai defnyddwyr weld fawr o wahaniaeth yn y tymor byr yn sicr.

**7.4 Effaith ar y gweithlu**

7.4.1 Bydd staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn trosglwyddo i gyflogaeth y Cwmni a byddent yn derbyn yr un amodau a thelerau maent yn ei gael ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw staff sy'n cefnogi'r gwasanaeth o'r gwasanaethau canolog yn trosglwyddo.

7.4.2 Bydd rheoliadau TUPE yn gwarchod amodau a thelerau'r gweithlu a ni fedr y Cwmni newid yr amodau a thelerau hynny yn sgil y trosglwyddiad. I alluogi hynny bydd gofyn i'r Cwmni ddod yn aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol, gan y bydd angen sicrhau cynllun pensiwn cymharol i'r un presennol ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo drwy TUPE.

7.4.3 Yng nghyswllt unrhyw benodiadau newydd fydd y Cwmni yn ei wneud yn y dyfodol mae Côd Ymddygiad ar Faterion y Gweithlu 2014 gan Lywodraeth Cymru yn golygu y dylai'r Cwmni sicrhau nad ydy'r gweithwyr newydd, yn gyffredinol, yn derbyn amodau a thelerau llai ffafriol na'r gweithlu sydd wedi trosglwyddo.

7.4.4 Ers penderfyniad y Cabinet i edrych ar y maes yma mae newyddlenni rheolaidd a chyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda staff a'r Undebau Llafur er mwyn rhannu gwybodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau. Braf yw adrodd fod y cyfarfodydd hyd yma wedi bod yn bositif gydag ymagwedd agored a chefnogol i'r argymhelliad o sefydlu Cwmni.

**7.5 Goblygiadau Caffael**

7.5.1 Mae'r achos fusnes wedi ei seilio ar gwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor ac sydd hefyd yn cyfarfod meini prawf eithriad Teckal. Deillia'r eithriad "Teckal" o achosion Ewrop sydd bellach wedi ei sefydlu o fewn deddfwriaeth sydd yn golygu, yn ddarostyngedig i feini prawf penodol y gall y Cyngor osod cytundeb gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r Cwmni heb orfod mynd drwy broses gaffael allanol.

7.5.2 Mae dwy prif ran i'r meini prawf; bydda rhaid i reolaeth y Cyngor ar y Cwmni fod yn gyffelyb i'r rheolaeth sydd ganddo dros un o'i adrannau a bod o leiaf 80% o fasnach y Cwmni yn dod gan y Cyngor. Mae'r opsiwn a argymhellir yn cyrraedd y gofyn yma.

**7.6 Goblygiadau Ariannol a Threthiannol**

7.6.1 Mae'r arbedion o'r model yma yn tarddu o ryddhad o drethi annomestig ac eithriadau treth ar werth; mae'r eithriadau yma ar gael i gyrff sydd â phwrpas dyngarol ac nid ar gyfer elw. Ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn gymwys.

7.6.2 Bydd y Cyngor yn cyflawni'r arbedion hynny drwy addasu gwerth y cytundeb gyda'r Cwmni i adlewyrchu'r arbedion rheini, ond bydd cymalau ar gyfer delio gydag unrhyw newidiadau i'r cytundeb. Amcangyfrifir y bydd cymhorthdal yn lleihau o £1.869m i £1.282m erbyn 2019/20.

7.6.3 Ni fydda'r Cyngor yn trosglwyddo unrhyw risg cyfalaf ariannol sylweddol fel rhan o'r cytundeb neu'r prydlesau ac mi fydd unrhyw risg refeniw yn gyfyngedig, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Bydd y cytundeb yn manylu ar hyn.

7.6.4 Yng nghyswllt mynediad i ffynonellau incwm newydd yna mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i unrhyw incwm ychwanegol y gellir ei ddenu oddi fewn i amodau Teckal. Ymhellach, mae'n debygol mai'r dull gorau o fenthyg fydda drwy'r Cyngor gan na fydd y Cwmni yn berchen ei asedau.

7.6.5 Bydd costau unwaith ac am byth ynghlwm a sefydlu Cwmni. Costau cyfreithiol yw rhain yn bennaf ar gyfer sefydlu cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r Cwmni, paratoi'r cytundebau gwasanaeth a phrydlesau, proses TUPE ayyb. Amcangyfrifir y gall y costau unwaith ac am byth hynny fod rhwng £170k a £240k ond bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw costau i'r isafswm posib

7.6.6 Yn sgil ail-strwythuro diweddar gall yr adran gyfrannu £50k tuag at gostau sefydlu'r Cwmni yn ogystal â chyfarch cynnydd yng nghostau rhedeg newydd y Cwmni o £49k.

7.6.7 Drwy weithredu bydd yr adran yn cyflawni'r arbedion o £150k sy'n weddill o'r targedau y bu'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo nôl yn Rhagfyr 2014. Bydd hynny'n gadael cyfraniad arbedion o £435k i'r Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaeth benodol o £526k oedd i'w ddeillio o weithredu model amgen.

7.6.8 Rhagwelir y proffil arbedion blynyddol canlynol:

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Proffil Arbedion Net Blynyddol | £0 | £146,804 | £440,411 | £0 | £587,214 |

**7.7 Goblygiadau Eiddo**

7.7.1 Byddai'r Cyngor yn lesu'r adeiladau yn unol â hyd y cytundeb gwasanaeth am ffi 'peppercorn'. Bydd y les yn manylu ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cwmni gan gynnwys er enghraifft ymrwymiadau buddsoddi a gofynion perfformiad ar y naill ochr. Ar ddiwedd y cytundeb bydd unrhyw eiddo gan gynnwys offer yn dychwelyd yn ôl i'r Cyngor.

7.7.2 Bydd mwyafrif o gyfrifoldebau am gynnal yr adeiladau yn parhau i aros gyda'r Cyngor oherwydd rhesymau trethiannol.

**7.8 Effaith ar wasanaethau cefnogol a chanolog**

7.8.1 Bydd disgwyl i'r Cwmni brynu gwasanaethau canolog yn ôl gan y Cyngor; mae hynny ar y sail fod y costau canolog yn sefydlog ac na fydd y trosglwyddiad yma o faint ddigonol i allu gwireddu arbedion i'r Cyngor.

7.8.2 Bydd y gwasanaethau yn cael eu darparu drwy gytundeb gwasanaeth fydd yn nodi amodau'r gwasanaethau hynny.

**7.9 Diwylliant**

7.9.1 Un o atyniadau'r model arfaethedig yw ei fod yn caniatáu i ni gadw hunaniaeth bresennol a'r hyn mae pobl Gwynedd yn ei werthfawrogi am y gwasanaethau.

7.9.2 Mi fydd y Cwmni yn annibynnol i'r Cyngor a bydd y Cyngor yn dirprwyo rheolaeth weithredol i'r Cwmni. Bydd gofyn i'r Bwrdd warchod a hyrwyddo diddordebau'r Cwmni a gall hynny olygu y bydd yn cymryd safbwynt mwy masnachol ar rhai agweddau o'r busnes. Mae hyn yn grymuso'r Cwmni i gyflawni'r deilliannau penodedig fel mae'n gweld orau ond mae'r model arfaethedig yn darparu tryloywder ac elfen o reolaeth i'r Cyngor o ran sut caiff y deilliannau hynny eu cyflawni.

8 **Asesiad Cydraddoldeb**

8.1 Wrth werthuso'r opsiynau fe roddwyd ystyriaeth i berthnasedd ac effaith yr opsiwn ar ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig).

8.2 Gellir gweld yr asesiad cydraddoldeb llawn yn Atodiad A. Nod y cynllun arfaethedig yma yw 'Sicrhau gwasanaeth modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysgogi a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach' ac mae'r model arfaethedig yn cynnig pob cyfle i wneud hynny.

8.3 Os cymeradwyir yr argymhelliad bydd gofyn ail-ymweld a'r asesiad i wirio unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau a wnaed a sicrhau cydymffurfiaeth a'r ddeddf.

**9 Amserlen Gweithredu arfaethedig**

9.1 Bydd cymeradwyo’r achos yn y cyfarfod yma yna caniatáu’r gwasanaeth i weithredu yn ddi-oed a phendant gan wneud cyfraniad sylweddol i’r Strategaeth Ariannol ac, yn allweddol, heb gael effaith ar wasanaethau a phobl Gwynedd.

9.2 Os cymeradwyir yr argymhelliad yma ym mis Hydref eleni gall fod y Cwmni newydd yn weithredol yn ystod Chwarter 3 o 2018/19, gan sicrhau’r arbedion llawn yn 2019/20.

9.3 O fis Hydref ymlaen bydd gwaith yn cychwyn i greu’r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol, datblygu a dilysu cyfrifon i’r Cwmni a chynhyrchu cynllun busnes. Cyn i’r Cwmni fod yn weithredol a bod staff yn trosglwyddo bydd gofyn i’r Cwmni gyflwyno ei gynllun busnes ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor. Argymhellir fod ymgynghorwyr arbenigol yn cael eu cyflogi i gefnogi’r gwaith yma.

**10 Cyfreithiol**

10.1 Mae'r hawl i sefydlu’r Cwmni yn deillio o bŵer llesiant yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 adran 2(1) sy’n caniatáu i’r Cyngor ffurfio Cwmni os yw o’r farn fod hyn yn debygol o gyflawni hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal.

10.2 Yn yr atodiadau amgaeedig, mae’r ymgynghorwyr allanol yn cyfeirio at achos llys oedd yn derbyn gwrandawiad ar y pryd. Mae’r dyfarniad yn yr achos *‘London Borough of Ealing -v- HMRC’* bellach wedi ei gyhoeddi gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Nid yw’n glir ar hyn o bryd, sut bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn ymdrin â’r penderfyniad yng nghyd-destun y darganfyddiadau a / neu apeliadau TAW ac felly, sut bydd hynny yn cael effaith ar y sefyllfa TAW. O ganlyniad, bydd angen i Swyddogion adolygu’r sefyllfa a chomisiynu gwaith pellach er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor yr arweiniad gorau ar y mater. Fodd bynnag, yn sgil y cyd-destun ariannol ehangach nid yw’r sefyllfa bresennol yn cyfiawnhau peidio parhau gyda’r argymhellion.

**11 Casgliadau ac argymhellion**

11.1 Mae’r gwaith yma wedi amlygu graddfa’r arbedion ariannol mae’r gwasanaeth wedi llwyddo i gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf gan sicrhau’r effaith lleiaf posib ar drigolion Gwynedd.

11.2 Un o brif gasgliadau’r gwaith yma yw na fedr y gwasanaeth yma ddarganfod rhagor o’r arbedion angenrheidiol heb drosglwyddo’r ddarpariaeth neu cau sawl Canolfan.

11.3 O’r opsiynau sydd ar gael sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor yw’r opsiwn sy’n taro balans orau o ran cyflawni arbedion a chadw diwylliant ac egwyddorion presennol. Mae’r opsiwn yma hefyd yn caniatáu fod rheolaeth a dylanwad y Cyngor yn parhau’n gryf o fewn y sector allweddol yma. Mae gweithredu’r opsiwn yma hefyd yn cyfarch ein dyletswyddau dan Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ( Cymru) 2015 o safbwynt cefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth a’r

ddarpariaeth i bobl Gwynedd. Drwy wneud hynny mae'n cyd-fynd ac amcanion tymor hir y Cyngor ar draws ystod o'i flaenoriaethau strategol.

## 12 Atodiadau

12.1 Atodiad 1 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

12.2 DOGFEN EITHRIEDIG - Atodiad 2 – Prif Adroddiad ac atodiadau

**Atodiad 1**

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**1 Manylion**

**1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?**

| |
|---|
| Model Darparu Hamdden |

**1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?**

Nod y cynllun arfaethedig yw gweithredu'r model darparu gorau i 'Sicrhau gwasanaeth, modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach'.

Y prif amcan yw gwireddu arbedion ariannol gan gynnig yr un ystod o wasanaethau i'r un safon neu well. Mae'r modelau isod wedi'u hystyried o fewn yr achos fusnes:

- 2.2.1 Gwneud Dim
- 2.2.2 Parhau i ddarparu gwasanaethau ein hunain a darganfod fwy o effeithlonrwydd a/neu incwm
- 2.2.3 Sefydlu elusen o'r newydd
- 2.2.4 Sefydlu Cwmni buddiannau cymdeithasol
- 2.2.5 Sefydlu cymdeithas buddiannau cymdeithasol ('Staff Mutual')
- 2.2.6 Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor
- 2.2.7 Sefydlu Cwmni masnachu awdurdod lleol
- 2.2.8 Proses gaffael agored
- 2.2.9 Trosglwyddo'r gwasanaeth i gorff arall

Bydd effaith ar wasanaeth a defnyddwyr yn rhan o feini prawf y gwerthusiad o fodelau busnes. Os bydd penderfyniad i weithredu model amgen bydd yn rhannol seiliedig ar yr angen i sicrhau na fydd effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae elfen o risg yn perthyn i unrhyw sefyllfa o drosglwyddo cyfrifoldeb a bydd gwerthusiad o'r risgiau rheini hefyd yn ffurfio rhan o'r broses gwerthuso opsiynau. Mae'n debygol felly y bydd angen ail-ymweld a'r asesiad yma yn ystod ac ar ddiwedd y broses gwerthuso ac os mai'r casgliad yw gweithredu model amgen.

Mewn sefyllfa o drosglwyddo bydd effaith ar staff y gwasanaeth yn yr ystyr y bydd eu cyflogaeth a'u hamodau a thelerau yn trosglwyddo i gorff newydd. Bydd rheoliadau TUPE (Transfer of Undertakings (Protection of Employment) )yn cynnig gwarchodaeth i amodau a thelerau staff. Unwaith eto fodd bynnag mae risg o newid yn perthyn i unrhyw drosglwyddiad o gyfrifoldeb ond rhagwelir mai isel yw'r risg hwnnw ar hyn o bryd.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Robin Evans, Rheolwr Prosiect |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| 24/05/17, fersiwn cyntaf |

**2) Gweithredu**

**2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Defnyddwyr gwasanaeth<br>Defnyddwyr gwasanaeth posib<br>Y gweithlu<br>Aelodau etholedig |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

**Yn bresennol**

Ni ragwelir effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth ond mi fyddai'n briodol ail- ymweld â'r angen yma ar ddiwedd y broses gwerthuso opsiynau i wirio unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau a wnaed. Gan na ragwelir effaith ni ystyrir yn briodol ymgynghori a'r cyhoedd.

Ers cyhoeddi'r bwriad i edrych ar y maes yma mae'r Uwch Reolwr wedi rhyddhau 2 newyddlen sy'n briffio staff ar y bwriad, y rhesymau dros ystyried newid a'r goblygiadau posib yn sgil unrhyw newid. Mae'r newyddlen yno'n gwahodd cwestiynau neu sylwadau gan staff ond ni dderbyniwyd dim hyd yma.

Mae'r Uwch Rheolwr hefyd wedi ymweld â'r Canolfannau Hamdden i gyd er mwyn cyfarfod y staff ac i amlinellu'r cynllun arfaethedig. Yn gyffredinol ni dderbyniwyd llawer o ymateb gyda'r unig gwestiynau yn ymwneud a pharhad cyflogaeth.

Mae bwriad i barhau gyda'r trefniadau ymgysylltu yn unol ag amseriad cherrig milltir allweddol yn ystod y cyfnod gwerthuso a phroses penderfynu.

Mae'r newyddlen wedi ei rannu gyda'r Undebau Llafur ac mae gwahoddiad agored am gyfarfod briffio agoriadol. Hyd yma mae cyfarfod wedi ei gynnal gydag un o'r undebau gyda cytundeb i barhau gyda'r diweddariadau yn ystod y cyfnod gwerthuso a phroses penderfynu.

**Yn flaenorol**

Casglwyd tystiolaeth fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd


**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Dim cwestiynau wedi eu derbyn hyd yma gan staff.

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Her Gwynedd yn cyfleu pwysigrwydd y gwasanaeth i drigolion. Ar hyn o bryd fodd bynnag ni ragwelir effaith ar ddefnyddwyr a staff.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Mae'r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y Sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.




Mae'r ddarpariaeth bresennol yn golygu fod 27% o boblogaeth Gwynedd yn byw o fewn milltir i Ganolfan Hamdden a bod dim anheddau yn byw mwy nag 18 milltir.
Mae'r aelodaeth bresennol gyfystyr a thua 14% o boblogaeth Gwynedd.
O'r 17,000 o aelodau mae 55.4% o'r aelodau yn blant 0 i 16oed, 27% yn Oedolion 24 i 60 oed a 9.3% dros 65oed.

Mae'r gwriant gros y gwasanaeth hamdden yn bron i £5m y flwyddyn ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae'r Cyngor felly'n cymorthdalu bron i £1.9m o'r gwasanaeth hamdden. Ers 2014/15 mae'r cymhorthdal yma wedi gostwng o £900k sydd gyfystyr a thua 33%.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Bydd gofyn ail-ymweld a'r angen i ganfod fwy o dystiolaeth ar ddiwedd y broses werthuso a chyn unrhyw benderfyniad i weithredu.

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y Cyngor yn sicrhau, pe byddwn yn penderfynu ar |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | fodel amgen, y bydd anghenion gwahanol nodweddion yn cael yr un ystyriaeth ac maent yn gael yn bresennol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith felly ar bobl gyda nodweddion penodol. Wedi dweud hynny, os bydd effaith yn cael ei amlygu ar un rhyw bwynt wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn ail ymweld â'r asesiad yma. |
| **Anabledd** | Dim | |
| **Rhyw** | Dim | |
| **Oedran** | Dim | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Dylid dileu'r rhai amherthnasol** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y Cyngor yn sicrhau, pe byddwn yn penderfynu ar fodel amgen, y bydd anghenion gwahanol nodweddion yn cael yr un ystyriaeth ac maent yn cael yn bresennol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith felly ar ddyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wedi dweud hynny, os bydd effaith yn cael ei amlygu ar un rhyw bwynt wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn ail ymweld â'r asesiad yma. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol ar hyn o bryd |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol ar hyn o bryd |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Ar hyn o bryd yr angen yw diweddaru'r asesiad yma yn ôl y galw. |